# Cynllun Gwaith Ofcom 2023/24

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Cynnwys

## Adran


1. Rhagair 2

2. Trosolwg 4

3. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023/24 10

4. Y Gwledydd 30

5. Sut rydym yn cyflawni 34


## Atodiad


A1. Beth rydym yn ei wneud 40

A2. Gwaith prosiect ar gyfer 2023/2024 42

# 1. Rhagair

1.1 Bydd hi'n ugain mlynedd ers sefydlu Ofcom eleni, ac mae ein cenhadaeth i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb yn bwysicach nag erioed. Mae'r sectorau o dan ofal Ofcom yn cysylltu, yn hysbysu ac yn diddanu pobl ar hyd a lled y wlad bob dydd. Maen nhw hefyd yn cyfrannu dros £70bn i economi'r Deyrnas Unedig bob blwyddyn.

1.2 Felly, mae angen i ni sicrhau bod y marchnadoedd hyn yn gweithio fel y dylent, yn enwedig ar adeg pan fydd pobl yn cael trafferth talu eu biliau ac angen bargeinion da a fforddiadwy.

1.3 Dyna pam ei bod yn bwysig bod tariffau cost isel ar gyfer cartrefi cymwys ar gael nawr gan bron bob un o'r prif ddarparwyr telegyfathrebiadau. Mae band eang cyflym iawn a gwasanaethau symudol 4G wedi cyrraedd y rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig. Mae band eang ffeibr llawn, y cysylltiadau gwibgyswllt sy'n hybu rhaglenni digidol yfory, ar gael ar gyfer tua hanner cartrefi ac mae'n cynyddu'n gyflym. Mae ein sectorau teledu a radio wedi gwrthsefyll pwysau aruthrol, yn parhau i ennyn eiddigedd ar hyd a lled y byd ac yn rhan ganolog o fywydau pobl.

1.4 Ond mae angen i ni barhau i ymateb i newidiadau yn y farchnad – costau newidiol, technolegau newydd, newid mewn ymddygiad defnyddwyr a risgiau sy'n esblygu, gan gynnwys yr angen i ddiogelu cwsmeriaid agored i niwed. Mae ein Cynllun Gwaith ar gyfer 2023-24 wedi'i gynllunio i wneud hynny.

1.5 Eleni, rydym yn parhau i grwpio ein gwaith o dan themâu cyfarwydd: rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno; cyfryngau rydym yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi; bywyd mwy diogel ar-lein; a galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach. Mae hynny'n cynnwys hyrwyddo cysylltiadau cyflymach a mwy dibynadwy; diogelu gwylwyr a gwrandawyr rhag niwed; a gwneud paratoadau terfynol i reoleiddio cyfryngau cymdeithasol ac apiau chwilio o dan y Bil Diogelwch Ar-lein y disgwylir iddo ddod yn gyfraith eleni.

1.6 Ochr yn ochr â hynny, byddwn yn parhau i gyflawni gwaith pwysig – gan gynnwys rheoleiddio'r farchnad bost a hyrwyddo buddsoddiad ar draws y sector cyfathrebiadau.

1.7 Un o agweddau pwysicaf ein Cynllun yw'r ymgysylltu a wnawn â phobl a busnesau y mae ein gwaith yn effeithio arnyn nhw. Mae hynny'n cynnwys y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, llywodraethau a chynulliadau etholedig, elusennau a grwpiau cymdeithas sifil, academyddion ac arbenigwyr eraill.

1.8 Roeddem yn falch iawn o gynnal digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb ar ein Cynllun drafft ledled y Deyrnas Unedig ym mis Ionawr. Clywsom safbwyntiau a oedd yn amrywio o gyrff y diwydiant yn amlinellu datblygiadau technegol yn eu sectorau i gyrff defnyddwyr yn tynnu sylw at effaith biliau cynyddol.

1.9 Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymgysylltu, ac i'r bobl a'r sefydliadau sy'n parhau i lywio ein gwaith. Wrth i ni roi ein Cynllun ar waith, byddwn yn dal i wrando ar adborth ac yn gwneud yn siŵr bod ein blaenoriaethau'n adlewyrchu blaenoriaethau'r bobl a'r busnesau rydym yn eu gwasanaethu.



**Y Fonesig Melanie Dawes, y Prif Weithredwr**

# 2. Trosolwg

2.1 Wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, mae ein rôl fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau cydgyfeiriol – ar draws gwasanaethau telegyfathrebiadau, darlledu, post, sbectrwm ac ar-lein – yn bwysicach nag erioed. Dyma sut mae pobl yn cael gwasanaethau cyfathrebiadau heddiw: gyda'i gilydd fel cwsmeriaid, cynulleidfaoedd, defnyddwyr a dinasyddion. Yn yr un modd ag y mae ffiniau gweithgarwch ar-lein ac all-lein yn dod yn llai eglur, nid yw ffiniau traddodiadol y sector yn amlwg i'r ymyrraeth ddigidol sy'n ail-lunio cyfathrebiadau a chynnwys heddiw chwaith.

2.2 Dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt, bydd ein cylch gwaith yn parhau i ehangu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr a'r economi ehangach, gan leihau niwed posibl ar yr un pryd. Rydym eisoes wedi ymgymryd â dyletswyddau newydd ar gyfer llwyfannau rhannu fideos a diogelwch telegyfathrebiadau, a byddwn yn cael adnoddau a thasg newydd bwysig i greu bywyd mwy diogel ar-lein diolch i'r Bil Diogelwch Ar-lein sydd ar y gweill. Wrth i ni ysgwyddo'r dyletswyddau newydd hyn, mae'r Cynllun Gwaith hwn yn nodi ein gweithgareddau arfaethedig i gyflawni ein cenhadaeth i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb dros y flwyddyn nesaf.

## Archwilio goblygiadau tarfu a chydgyfeirio digidol

2.3 Mae arloesi cyflym a globaleiddio yn nodweddion cynhenid yn y sectorau telegyfathrebiadau, y cyfryngau a thechnoleg. Er mwyn rheoleiddio'r dirwedd newidiol hon yn effeithiol, mae Ofcom wedi cyfrannu at ei Gynllun Gwaith drwy nodi, blaenoriaethu a dadansoddi'r prif dueddiadau o safbwyntiau ymddygiad defnyddwyr, modelau busnes masnachol a datblygiadau technolegol. Mae'r gweithgaredd hwn yn sicrhau ein bod yn gosod cynllun clir sy'n edrych tua'r dyfodol ac sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir wrth i'r dirwedd newid. Fel rhan o'n gwaith cynllunio tymor canolig, rydym wedi cynnal nifer helaeth o sesiynau sganio'r gorwel, cyfweliadau allanol ac ymchwil i'r farchnad ar y cyd â'r diwydiant ac arbenigwyr allanol.

### Mae pobl yn byw eu bywydau fwyfwy ar-lein

2.4 Mae defnyddwyr yn byw eu bywydau fwyfwy ar-lein. Yn wir, mae gan 93% o oedolion yn y Deyrnas Unedig fynediad i'r rhyngrwyd gartref, gyda'r amser cyfartalog y mae oedolion yn ei dreulio ar-lein bob dydd, ym mis Medi 2022, ychydig o dan bedair awr, a gyda'r twf mwyaf nawr yn digwydd ymysg defnyddwyr hŷn 55 oed a hŷn (i fyny 15% o'i gymharu â mis Medi 2021) yn gysylltiedig â chynnydd yn faint o ddata band eang cartrefi sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfartaledd dros y pum mlynedd diwethaf[1]. Rydym yn disgwyl gweld twf parhaus yn y defnydd a'r ddibyniaeth ar wasanaethau ar-lein gan sbarduno mwy a mwy o

[1] *Ffynhonnell: © Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Medi 2022: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Mesur y rheini sydd ar-lein yn unig ar ffonau clyfar, tabledi neu gyfrifiaduron yn unig.*

ddisgwyliad y gall defnyddwyr ymddiried y bydd rhwydweithiau'n darparu gwasanaeth y gallant ddibynnu arno (cyflym, fforddiadwy, cadarn a diogel).

2.5 Mae ein hymchwil defnyddwyr yn dangos bod pobl yn cael gafael ar amrywiaeth eang a chynyddol o wasanaethau ar-lein ar draws gwasanaethau cyfathrebiadau, gemau, bancio, gweithio o bell, e-fasnach, fideo ar-alw, newyddion, mynediad at wasanaethau cyhoeddus a mwy. Ar ôl chwilio, mae llawer o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd yn rhai rhyngweithiol eu natur. Roedd 97% o oedolion ar-lein yn y Deyrnas Unedig (a 68% o blant) yn defnyddio llwyfannau cymdeithasol a gwasanaethau cyfathrebu Meta, roedd 91% o oedolion (ac 88% o blant) ar-lein yn defnyddio YouTube ac roedd 38% o oedolion (a 57% o blant) yn chwarae gemau ar-lein.[2] Mae'r gweithgarwch hwn yn disodli gwasanaethau traddodiadol yn gyflym gyda gwell profiadau i ddefnyddwyr. Er nad yw wedi'i ddiffinio'n llawn ac nad yw wedi cael ei fabwysiadu'n helaeth hyd yma, mae bydoedd rhithwir ar-lein (er enghraifft, Metaverse) a realiti estynedig yn cynnig y potensial i wneud ein rhyngweithio'n llawer mwy cyfoethog ac ymgollol. Er bod gwasanaethau rhyngweithiol o'r fath yn boblogaidd ac yn cynnig buddion sylweddol i ddefnyddwyr, mae heriau hefyd gan fod 68% o blant (13-17 oed) a 62% o oedolion (18 oed a hŷn) yn dweud eu bod wedi profi o leiaf un niwed ar-lein yn ystod y pedair wythnos diwethaf gyda 46% o ddefnyddwyr yn dadlau dros roi mwy o fesurau diogelwch ar-lein ar waith. Y niwed posibl o gynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant, sy'n cynyddu gyda'r twf cyflym yn y gwasanaethau algorithmig hyn sy'n cael eu defnyddio, ynghyd â'u cyrhaeddiad, yw ffocws y Bil Diogelwch Ar-lein. Bydd Ofcom yn adeiladu ar record gref o ran gwaith safonau cynnwys gyda llwyfannau i sicrhau eu bod yn cymryd camau angenrheidiol i helpu pobl i fyw bywyd mwy diogel ar-lein, gan gynnal rhyddid mynegiant ar yr un pryd.

## Mae modelau busnes masnachol newydd yn dod i'r amlwg

2.6 Mae busnesau sefydledig a busnesau newydd yn parhau i ail-lunio'r sectorau cyfathrebiadau drwy fodelau busnes masnachol newydd sy'n ehangu ac yn gwella gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ddatblygu sut mae gwerth ariannol iddyn nhw ar yr un pryd. Ymysg cwmnïau telegyfathrebiadau traddodiadol, efallai y bydd pwysau i gyfuno wrth i fwndeli symudol a sefydlog ar y cyd gael eu gwthio gan gwmnïau 'cydgyfeiriol', ac wrth i ddarparwyr rhwydweithiau sefydlog eraill aeddfedu. Mae cwmnïau cyfryngau mawr yn yr Unol Daleithiau yn parhau i fuddsoddi mewn cynnwys ac yn amharu ar y farchnad deledu, gan ddenu mwy o oriau gwylio (roedd cyfran darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o'r gwylio wedi disgyn i 58% yn 2022 o'i gymharu â 67% yn 2019) wrth i gostau cynhyrchu teledu gynyddu. Gallai hyn arwain at fwy o gydgrynhoi ymysg chwaraewyr cyfryngau i gystadlu â'r raddfa sydd ei hangen ar gyfer cyfuno a dosbarthu. Yn wir, mae'r llinellau rhwng cyfryngau traddodiadol a newydd eisoes yn dod yn llai eglur. Yn y dyfodol, mae'n debyg y bydd gan y cyfryngau ddiffiniad ehangach: gan ymgorffori 'rhestr hirfaith' o

[2] *Ffynhonnell: © Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Medi 2022: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Mesur y rheini sydd ar-lein yn unig ar ffonau clyfar, tabledi neu gyfrifiaduron yn unig.*

chwaraewyr llai sy'n cynhyrchu cynnwys arbenigol penodol, gan gynnwys podlediadau, yn ogystal â chynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr.

2.7 Bydd rôl y cwmnïau technoleg mawr ar-lein yn parhau i dyfu, a bydd ganddyn nhw fwy o ran ar draws y gadwyn gwerth, o gynhyrchu cynnwys i rith wasanaethau rhwydwaith. Wrth i dwf y cewri technoleg traddodiadol sefydlogi, byddan nhw'n ceisio datblygu eu modelau ennill arian, fel y gwelwyd yn ddiweddar wrth i Netflix lansio haen ratach gyda hysbysebion a Facebook yn cyhoeddi cynlluniau i gynnig bathodyn ('tic glas') y telir amdano i ddilysu pwy ydych chi. Bydd chwaraewyr newydd yn parhau i gynnig gwasanaethau traddodiadol mewn ffyrdd sy'n tarfu neu'n darparu gwasanaethau newydd sbon. Bydd modelau ennill arian ar gyfer y gwasanaethau newydd hyn yn cael eu harallgyfeirio ar draws gwasanaethau trafodion, tanysgrifio a hysbysebu ynghyd â defnyddio mwy a mwy o brosesau casglu data. Bydd llai o eglurder ynghylch y gweithgareddau a'r modelau ennill arian ar draws y gadwyn gwerth yn dylanwadu ar sut rydym yn meddwl am reoleiddio ac yn defnyddio ein hadnoddau a'n dulliau traddodiadol i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir o ran cystadleuaeth a budd i ddefnyddwyr.

## Mae datblygiadau technolegol newydd yn tarfu ar y sefyllfa bresennol

2.8 Gall newidiadau technolegol helpu i arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr, gan wella dewis, pris ac arloesi i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, bydd y dechnoleg sy'n sbarduno gwasanaethau sy'n dod i'r amlwg ac yn y dyfodol fel rhith-realiti/realiti estynedig, nwyddau defnyddwyr wedi'u cysylltu, synwyryddion a dyfeisiau o bell yn dibynnu ar alluoedd uwch rhwydweithiau ffeibr llawn a 5G.

2.9 Wrth i'r galw am gysylltiad gynyddu, rydym yn disgwyl gweld mwy o gydgyfeirio rhwng gwahanol dechnolegau – er enghraifft, ar draws gwasanaethau symudol, lloeren a band eang gwifr. Mae'n debyg y bydd hyn yn golygu bod cewri technoleg yn chwarae rhan fwy mewn rhwydweithiau a chadwyni gwerth cyfathrebiadau yn gyffredinol (er enghraifft, cyfrifiadura ar yr ymylon mewn rhwydweithiau symudol a Rhwydweithiau Darparu Cynnwys mewn rhwydweithiau sefydlog) gan alluogi storio a phrosesu cynnwys yn nes at y defnyddiwr er mwyn gallu perfformio'n well. Ar yr un pryd, bydd gweithredwyr rhwydwaith yn defnyddio mwy ar seilwaith cwmwl i gyflawni swyddogaethau rhwydwaith rhithwir, gan eu galluogi i ddarparu rhwydweithiau mwy hyblyg, graddadwy a chost-effeithiol. Mae'r tueddiadau hyn yn cyfrannu at seilwaith cyfathrebiadau mwy amrywiol a datganoledig ar y cyfan, lle mae profiad defnyddwyr yn dibynnu yn y pen draw ar ecosystem marchnad ddigidol ehangach.

2.10 Wrth i rwydweithiau sy'n gallu cefnogi gwasanaethau newydd yn fwy dibynadwy gael eu defnyddio, ac sydd hefyd yn gallu arbed costau ac ynni, bydd cwmnïau'n ddieithriad yn ceisio diffodd technolegau hŷn. Wrth i'r gwaith uwchraddio seilwaith pwysig hwn fynd rhagddo, mae'n bwysig nad yw hyn yn tarfu'n ddiangen ar brofiad cwsmeriaid, a bod cwsmeriaid agored i niwed yn cael eu diogelu.

## Yr hyn y byddwn yn ei flaenoriaethu

2.11 Yng nghyd-destun ein cynllun tymor canolig, rydym yn ymwybodol o'r pwysau tymor agosach sy'n wynebu'r wlad o ran costau byw, gyda chwyddiant wedi cyrraedd ei lefel uchaf ers dros 40 mlynedd yn ddiweddar. Gan fod pobl yn wynebu pwysau ariannol difrifol a chynyddol oherwydd cynnydd sylweddol mewn biliau cartrefi, sy'n achosi pryder, mae sicrhau mynediad at wasanaethau fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol i Ofcom. Rydym wedi ymrwymo i'n cynlluniau i gefnogi tegwch i gwsmeriaid, ac rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i hyrwyddo tariffau cymdeithasol.

2.12 Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn canolbwyntio ar gyflawni tri chanlyniad i ddefnyddwyr, fel y nodwyd y llynedd, ochr yn ochr â'n rôl yn rheoli adnodd sbectrwm radio prin y Deyrnas Unedig ar gyfer effeithlonrwydd ac arloesi. Byddwn yn strwythuro'r rhan fwyaf o'n rhaglen waith o dan y blaenoriaethau hyn.

### Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno

- Bod rhwydweithiau o ansawdd uchel ar gael lle mae eu hangen
- Rhwydweithiau dibynadwy a diogel y gall pobl ddibynnu arnyn nhw
- Bod pobl yn ymddiried yn y rhwydweithiau a'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio
- Bod defnyddwyr yn hyderus ac yn gallu ymgysylltu a gwneud dewisiadau yn y farchnad er mwyn cael y gwasanaethau priodol iddyn nhw
- Bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n fforddiadwy

✓ Parhau i **gefnogi buddsoddiad a chystadleuaeth** sy'n darparu rhwydweithiau cyflym a dibynadwy; drwy fynd ati'n rhagweithiol i weithredu ein Hadolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol ar gyfer rhwydweithiau sefydlog a hyrwyddo dewis mwy gwybodus o wasanaethau symudol drwy ein gwaith ar adrodd ar wasanaethau symudol.

✓ Gweithio gyda darparwyr telegyfathrebiadau i wella **diogelwch rhwydweithiau** a gwneud gwaith ar **gadernid rhwydweithiau** i ystyried sut mae ein dyletswyddau'n berthnasol wrth i rwydweithiau ddatblygu.

✓ Cwblhau ein **Hastudiaeth o'r Farchnad Cwmwl** fel rhan o'n gwaith ehangach i ddatblygu ein dealltwriaeth o **farchnadoedd digidol.**

✓ Cwblhau ein gwaith i ddiweddaru ein canllawiau **niwtraliaeth y rhyngrwyd.**

✓ Sicrhau **diogelwch defnyddwyr** drwy wreiddio ein rheolau a hefyd drwy fentrau gwirfoddol.

✓ Canolbwyntio ar **fforddiadwyedd** a chwblhau ein gwaith yn edrych ar godi prisiau ar ganol contract.

### Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

- Bod cynulleidfaoedd yn gallu gwylio a gwrando ar gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig ac sy'n adlewyrchu ei hamrywiaeth
- Bod pobl yn gallu ymddiried yn y newyddion maen nhw'n eu gwylio ac yn gwrando arnyn

✓ Gweithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar **fil cyfryngau i gefnogi'r esblygiad yn ein dull o reoleiddio** cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus; ac edrych yn fanwl ar sut mae'r farchnad yn gwasanaethu buddiannau plant.

✓ Dal y **BBC** i gyfrif, gan gynnwys ar gyfer cyflawni ei ddibenion cyhoeddus o dan y **Drwydded Weithredu newydd.**

✓ Parhau i **ddiogelu ymddiriedaeth mewn newyddion** drwy barhau i orfodi gofynion didueddrwydd dyladwy a

| | |
|---|---|
| nhw – maen nhw'n gywir, yn ddiduedd ac yn ddibynadwy<br>• Bod lluosogrwydd a dewis o amrywiaeth eang o ddarparwyr a chynhyrchwyr sy'n cystadlu'n deg am gynulleidfaoedd<br>• Bod cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, a rhyddid mynegiant yn cael ei ddiogelu | chywirdeb dyladwy yn ogystal â thrwy ein gwaith lluosogrwydd yn y cyfryngau.<br>✓ Parhau i **ddiogelu cynulleidfaoedd rhag niwed** er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd, ac yn enwedig plant, yn cael eu diogelu.<br>✓ Sicrhau bod **gwasanaethau Fideo Ar-alw** yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â **chynnwys niweidiol** a gweithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gynigion ar gyfer **sicrhau bod safonau'n cyd-fynd yn agosach â chynnwys sy'n cael ei ddarlledu.** |
| **Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein**<br>• Bod Ofcom yn cael ei sefydlu fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein credadwy a dibynadwy<br>• Bod camau gweithredu disgwyliedig yn cael eu nodi i adnabod a mynd i'r afael â niwed blaenoriaeth ar-lein<br>• Bod cwmnïau ar-lein yn deall beth mae angen iddyn nhw ei wneud i roi diogelwch ar-lein wrth galon y ffordd maen nhw'n gweithredu, gan ddiogelu rhyddid mynegiant ar yr un pryd<br>• Bod gan ddefnyddwyr ddealltwriaeth glir o'r hyn maen nhw'n gallu ei wneud i fod yn fwy diogel ar-lein | ✓ Parhau i reoleiddio **Llwyfannau Rhannu Fideos**, gan ganolbwyntio ar sut mae llwyfannau yn gosod, yn gorfodi ac yn profi eu dull gweithredu o ran diogelwch defnyddwyr.<br>✓ **Gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein** ar ôl i'r Bil Diogelwch Ar-lein ddod yn gyfraith, gan gynnwys ymgynghori ar saernïaeth reoleiddiol y drefn.<br>✓ **Ymgysylltu â gwasanaethau risg uchel neu uchel eu heffaith** o fewn cwmpas y drefn newydd.<br>✓ Ymestyn ein rhaglen ymwybyddiaeth o'r cyfryngau **Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau** i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein.<br>✓ **Datblygu ein heffeithiolrwydd gweithredol**, gan gynnwys parhau i gynnal a chyhoeddi ymchwil, a hefyd drwy gydweithio a phartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol. |
| **Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach**<br>• "Cadw pethau i fynd" drwy ddyletswyddau busnes-fel arfer (trwyddedu, cynllunio, sicrwydd a chydymffurfio)<br>• Bod sbectrwm ar gael i alluogi'r diwydiant cyfathrebiadau i fodloni'r twf a'r arloesi a ragwelir mewn gwasanaethau symudol a di-wifr i ddefnyddwyr<br>• Bod sbectrwm ar gael i ddiwallu anghenion arbenigol sectorau allweddol (er enghraifft, cyfleustodau, gweithgynhyrchu a thrafnidiaeth)<br>• Ychwanegu rhagor o ddefnyddwyr drwy welliannau parhaus o ran effeithlonrwydd defnyddio sbectrwm<br>• Buddiannau'r Deyrnas Unedig yn cael eu cynrychioli'n effeithiol mewn trafodaethau rhyngwladol ar ddyrannu a defnyddio sbectrwm | ✓ Parhau i gefnogi'r gwaith o **gydgyfeirio a datblygu rhwydweithiau** er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth ac arloesi.<br>✓ **Cyflymu arloesi a rhannu sbectrwm** drwy ddatblygu ein dull awdurdodi a hwyluso cydweithio drwy 'flychau tywod ar gyfer sbectrwm'.<br>✓ **Gwella'r gwaith o gasglu a dadansoddi data** i lywio ein polisïau sbectrwm yn y dyfodol yng ngoleuni'r galw cynyddol.<br>✓ **Mwy o arweinyddiaeth ryngwladol** ar reoli sbectrwm, yn enwedig gweithio gyda'r Llywodraeth i gynrychioli buddiannau'r Deyrnas Unedig, ac arwain dirprwyaeth y Deyrnas Unedig i Gynhadledd Radio'r Byd yn 2023.<br>✓ **Cefnogi defnyddwyr sbectrwm**, yn benodol drwy ddarparu mwy o wasanaethau trwyddedu ar-lein a **thrwy ymchwilio i ymyriant niweidiol** a defnyddio sbectrwm yn anghyfreithlon neu heb drwydded. |

## Cyflawni ein swyddogaethau sefydlog

2.13 Yn ogystal â'r blaenoriaethau uchod, byddwn yn parhau i gyflawni ystod eang o swyddogaethau sy'n hanfodol i sicrhau bod "cyfathrebiadau'n gweithio i bawb". Yn benodol, mae hyn yn cynnwys cynnal gwasanaeth post cyffredinol sy'n gweithio'n dda:

- **Monitro perfformiad y Post Brenhinol** yn well, gan ystyried effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol.
- **Adolygu'r capiau diogelu** ar gyfer y Post Brenhinol a fydd yn berthnasol o fis Ebrill 2024 ymlaen.
- **Archwilio datblygiadau yn y farchnad parseli ehangach**, a phrofiad defnyddwyr post preswyl a busnes.
- Parhau i **gyflawni ein swyddogaethau eraill (er enghraifft, cyhoeddi adroddiadau ymchwil, cyhoeddi trwyddedau, datrys cwynion ac ati)** i gefnogi'r blaenoriaethau uchod a chyflawni ar draws yr amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan ddefnyddwyr.

2.14 Yn olaf, rydym yn sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu amgylchiadau penodol defnyddwyr a rhanddeiliaid ym mhob un o'r gwledydd ledled y Deyrnas Unedig, yn enwedig drwy waith ein timau yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast.

# Ein paratoadau i gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn y flwyddyn i ddod

2.15 Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, rydym yn buddsoddi yn ein gallu i ddatblygu polisi, ac yn y proffesiynau sy'n cefnogi ein grwpiau polisi. Mae'r rhain yn cynnwys ein sgiliau technoleg, data, ymchwil a masnachol, ochr yn ochr â'n gallu i sganio'r gorwel.

2.16 Mae llwyddiant yn y meysydd hyn yn golygu bod yn rhaid i ni barhau i gryfhau partneriaethau ar draws y maes rheoleiddio digidol – yn ddomestig, fel drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, ac yn rhyngwladol – er mwyn sicrhau newid go iawn.

2.17 Mae'r ddogfen hon yn nodi ein rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn 2023/24, yng nghyd-destun y materion ar gyfer pobl, busnesau a'n sectorau rydym wedi'u nodi heddiw, ac yn y tymor hwy.

# 3. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

3.1 Fel rheoleiddiwr y Deyrnas Unedig ar gyfer y sector cyfathrebiadau, gweledigaeth Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Mae ein dyletswyddau a'n swyddogaethau wedi cael eu gosod mewn nifer o Ddeddfau Seneddol. Ein prif ddyletswydd yw datblygu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yng nghyswllt materion cyfathrebiadau, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth.

3.2 Rhaid i Ofcom ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol. Mae'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol, a gyhoeddwyd yn 2019, yn amlinellu blaenoriaethau polisi'r Llywodraeth mewn perthynas â thelegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post. Rydym wedi ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol wrth ddatblygu'r rhaglen waith hon yn y ffyrdd canlynol:

- **Seilwaith digidol o'r radd flaenaf:** Rydym yn parhau i hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau newydd a defnyddio sbectrwm radio er budd pobl a busnesau. Rydym yn rhannu ymrwymiad y Llywodraeth i seilwaith digidol o'r radd flaenaf ar gyfer y Deyrnas Unedig, ac mae ein gwaith yn ystyried casgliadau Adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o Seilwaith Telegyfathrebiadau'r Dyfodol. Mae ein canlyniad blaenoriaethol, 'Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arni', yn amlinellu hyd a lled y gwaith i gefnogi hyn. Ar ben hynny, mae ein gwaith o dan y canlyniad blaenoriaethol 'Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach' yn dangos sut rydym yn parhau i reoli sbectrwm radio mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.
- **Hyrwyddo buddiannau defnyddwyr telegyfathrebiadau:** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid telegyfathrebiadau, gan gynnwys y rheini sy'n agored i niwed. Mae ein gwaith yn cefnogi'r ymrwymiad hwn yn uniongyrchol, a byddwn yn parhau â'r gwaith i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu trin yn deg, yn cael eu grymuso i wneud dewisiadau sy'n iawn iddyn nhw, a'u bod yn cael eu diogelu. Mae sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau fforddiadwy yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom, ac rydym wedi ymrwymo i'n cynlluniau i gefnogi tegwch i gwsmeriaid ac i hyrwyddo tariffau cymdeithasol.
- **Seilwaith telegyfathrebiadau diogel a chadarn:** Mae Ofcom yn parhau i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiogelwch a chadernid rhwydweithiau. O dan y Ddeddf Diogelwch Telegyfathrebiadau newydd, rydym yn gyfrifol am fonitro a gorfodi gofynion diogelwch ar gyfer y sector telegyfathrebiadau i sicrhau bod rhwydweithiau newydd yn cael eu dylunio gyda diogelwch mewn golwg. Rydym yn cydnabod yr amrywiaeth gynyddol o risgiau i'n seilwaith telegyfathrebiadau a digidol, ac mae cadernid yn dal yn ffocws i ni.
- **Gwasanaethau post:** Mae rheoleiddio post yn parhau'n elfen graidd o'n gwaith. Mae hyn yn cynnwys adolygu a oes angen newid y ffordd y mae'r sector yn cael ei reoleiddio yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad ac anghenion esblygol defnyddwyr.

## Ein canlyniadau blaenoriaethol

Mae’r adran ganlynol yn amlinellu ein canlyniadau blaenoriaethol, a sut bydd ein prosiectau a’n rhaglenni yn ystod 2023/24 yn eu hategu.

### Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno

Cysylltiadau a gwasanaethau cyflym a dibynadwy i bawb, ym mhobman

**Mae mwy o alw a mabwysiadu gwasanaethau newydd a gwasanaethau’r dyfodol wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar rwydweithiau digidol, gan bwysleisio’r angen i gael rhwydweithiau a gwasanaethau y gallwn wir ddibynnu arnyn nhw. Mae’r canlyniad blaenoriaethol yma’n ymwneud â’r rhwydweithiau a’r gwasanaethau sy’n ein cysylltu, ac y mae cymdeithas gyfan a’n heconomi bellach yn dibynnu arnyn nhw. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn gwbl sylfaenol i’r holl ganlyniadau eraill yn y sector cyfathrebiadau.**


3.3 Mae diogelu buddiannau defnyddwyr a sicrhau cysylltiadau a gwasanaethau cyflym a dibynadwy i bawb, ym mhob man yn rhan greiddiol o’n gwaith, a bydd yn gyrru ein gwaith dros y flwyddyn nesaf. Bydd cynnal marchnadoedd sy’n gweithio’n dda yn helpu i sbarduno rhwydweithiau a gwasanaethau y gall y Deyrnas Unedig ddibynnu arnyn nhw. Yn ogystal â hybu cystadleuaeth a buddsoddi, bydd ein gwaith dros y flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ar wneud rhwydweithiau a gwasanaethau yn fwy cadarn a diogel rhag sgamwyr.

3.4 Wrth gyflawni ein gwaith i ddarparu ‘rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arni’, rydym yn ceisio sicrhau’r canlyniadau canlynol i ddefnyddwyr:

- Bod rhwydweithiau a gwasanaethau o ansawdd uchel ar gael lle mae eu hangen.
- Rhwydweithiau dibynadwy a diogel y gall pobl ddibynnu arnyn nhw.
- Bod pobl yn ymddiried yn y gwasanaethau a’r rhwydweithiau maen nhw’n eu defnyddio.
- Bod defnyddwyr yn hyderus ac yn gallu ymgysylltu a gwneud dewisiadau yn y farchnad er mwyn cael y gwasanaethau priodol iddyn nhw.
- Bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy’n fforddiadwy.

3.5 Rydym wedi nodi ein bwriad o’r blaen i hybu cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau a bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg. Roedd ein Hadolygiad o’r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol yn 2021 yn rhan bwysig o’r gwaith o hybu cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau, sydd bellach yn sbarduno’r gwaith o gyflwyno ffeibr fesul cam. Rydym hefyd yn gweld cystadleuaeth yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wella ansawdd gwasanaethau symudol, gyda gwell gwybodaeth am berfformiad rhwydweithiau yn galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am y rhwydwaith sy’n gweddu orau i’w hanghenion. Fel rhan o’n rhaglen Marchnadoedd Digidol byddwn hefyd yn ystyried sut mae

angen i’r broses o reoleiddio cyfathrebiadau addasu i’r marchnadoedd digidol sy’n sail i brofiadau defnyddwyr cyfathrebiadau heddiw, ac sy’n eu diffinio fwy a mwy.




3.6 Mae fforddiadwyedd gwasanaethau telegyfathrebiadau wedi bod yn flaenoriaeth i Ofcom erioed, ac rydym yn cydnabod yr heriau sy’n wynebu defnyddwyr y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd ar adeg pan mae llawer yn wynebu pwysau ariannol cynyddol. Mae mwy o ddarparwyr nawr yn cynnig ‘tariffau cymdeithasol’ rhatach i’r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau cefnogaeth i ddefnyddwyr drwy ddefnyddio’r gwasanaethau hyn. Bydd cystadleuaeth hefyd yn rhan bwysig o’r broses o annog darparwyr i barhau i gynnig bargeinion.

3.7 Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd ein prosiectau a’n rhaglenni allweddol i gefnogi’r canlyniad blaenoriaethol yma’n cynnwys:

- **Gweithredu ein Hadolygiad o’r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol:** Byddwn yn parhau i fynd ati’n rhagweithiol i fonitro cydymffurfiad â’r rheolau a nodwyd gennym yn 2021, gan gymryd camau gweithredu pan fo angen i sicrhau bod cystadleuaeth yn gallu gweithredu ar sail teilyngdod. Byddwn yn monitro canlyniadau buddsoddi a chystadleuaeth.
- **Codi prisiau ar ganol contract:** Rydym yn archwilio a yw codi prisiau ar ganol contract, sy’n gysylltiedig â chwyddiant, yn rhoi digon o sicrwydd ac eglurder i gwsmeriaid ffôn a band eang ynghylch yr hyn y gallant ddisgwyl ei dalu. Bydd ein hadolygiad yn edrych yn benodol ar yr arfer o godi prisiau yn ystod cyfnod contract, sy’n gysylltiedig â chwyddiant a newidiadau canrannol, a gyflwynwyd gan nifer o ddarparwyr yn 2021.
- **Astudiaeth o’r Farchnad Cwmwl:** Fel rhan o’n rhaglen Marchnadoedd Digidol ehangach, byddwn yn cwblhau ein hastudiaeth marchnad ar gyflenwi gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl yn y Deyrnas Unedig er mwyn deall a yw’r farchnad yn gweithio’n dda i fusnesau a defnyddwyr. Bydd yr astudiaeth yn ystyried sut mae’r farchnad yn datblygu a natur cystadleuaeth, gan gynnwys a oes angen cymryd unrhyw gamau.
- **Niwtraliaeth y rhyngrwyd:** Mae’r fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd wedi bod yn rhan hollbwysig o'r broses o alluogi pobl i gael gafael ar y cynnwys a’r gwasanaethau mae arnyn nhw eu heisiau. Yn dilyn ein hymgynghoriad ym mis Hydref 2022, byddwn yn cwblhau ein dadansoddiad a’n canllawiau ar gyfer darparwyr band eang a symudol, i sicrhau bod y fframwaith yn parhau i gefnogi arloesi, twf a dewis i ddefnyddwyr.
- **Y drefn diogelwch telegyfathrebiadau:** Byddwn yn gweithio’n agos gyda darparwyr telegyfathrebiadau i wneud eu rhwydweithiau a’u gwasanaethau’n fwy diogel. Gan ddefnyddio ein pwerau o dan y fframwaith newydd ar ddiogelwch telegyfathrebiadau, byddwn yn monitro eu gweithrediad a’u cydymffurfedd â’u rhwymedigaethau, ac yn cymryd camau gorfodi os na fydd darparwyr yn cydymffurfio â’r rheolau newydd. Byddwn yn parhau i wneud yn siŵr bod gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch ac yn ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau i gynnal cynllun profion hacio sy’n seiliedig ar wybodaeth (a elwir yn TBEST).
- **Cadernid rhwydweithiau:** Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwell cadernid rhwydweithiau. Byddwn yn ystyried sut mae’r dyletswyddau sy’n berthnasol i rwydweithiau telegyfathrebiadau traddodiadol yn berthnasol i’r rhwydweithiau rhithiol sy’n cael eu mabwysiadu’n gyflym, ac yn cefnogi syniadau’r Llywodraeth ynghylch y gofynion yn y dyfodol ar gyfer cadernid seilwaith digidol. Rydym hefyd yn cynnal ymarfer strategol i asesu cadernid y seilwaith digidol, yn enwedig lle mae’n sail i wasanaethau cyfathrebu a diwydiannau a rhaglenni hanfodol eraill.
- **Sgamiau:** Mae technoleg rad wedi gwneud nifer sylweddol a chynyddol o sgamiau’n bosibl drwy alwadau ffôn a negeseuon testun, sy’n cael effaith anghymesur ar y bobl fwyaf agored i niwed. Byddwn yn ymgynghori ar gyflwyno newidiadau i’r rheolau presennol er mwyn cryfhau'r broses dilysu rhifau, a byddwn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer mynd ymhellach.

- **Adolygu gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein:** Mae gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein – gan gynnwys gwasanaethau negeseuon fel WhatsApp – yn cael eu mabwysiadu a’u defnyddio fwyfwy gan ddefnyddwyr a busnesau yn y Deyrnas Unedig. Fel rhan o’n gwaith ar y marchnadoedd digidol, rydym yn adolygu a yw defnyddwyr gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein yn cael eu diogelu’n briodol rhag niwed, yn ogystal ag yn ystyried a oes unrhyw broblemau cystadleuaeth yn y marchnadoedd cyfathrebu pwysig hyn.
- **Rhoi newid ar waith:** Byddwn yn parhau i weithio gyda’r diwydiant i sicrhau bod y broses Newid Un Cam yn cael ei rhoi ar waith yn gyflym ac yn llwyddiannus. Mae Newid Un Cam yn golygu mai'r unig beth y bydd angen i ddefnyddwyr ei wneud fydd cysylltu â’r darparwr band eang newydd ar gyfer eu cartref, a byddan nhw hefyd yn gallu newid yn gyflymach – mewn dim ond diwrnod pan fydd hyn yn dechnegol bosibl.

3.8 Yn ogystal â’r meysydd hyn o weithgarwch cynyddol yn y sefydliad, mae ein Cynllun Gwaith yn cynnwys rhaglenni parhaus sy’n cefnogi ein gwaith yn y maes hwn.

- **Gwreiddio ein hymrwymiadau a'n rheolau diogelu defnyddwyr (monitro a gorfodi cydymffurfedd):** Byddwn yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod yr ymyriadau diogelu defnyddwyr rydym wedi'u rhoi ar waith dros y blynyddoedd diwethaf yn cael eu gwreiddio'n llwyddiannus ac y cydymffurfir â'r ymyriadau, a hynny drwy newid ein rheolau a hefyd drwy gyflwyno cynlluniau gwirfoddol.
- **Fforddiadwyedd:** Byddwn yn adrodd i ba raddau y mae cartrefi yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebiadau, yn enwedig mewn perthynas â band eang. Rydym yn dal i gredu bod gan ddarparwyr cyfathrebiadau gyfrifoldeb moesol i annog nifer i fanteisio ar 'dariffau cymdeithasol'. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro argaeledd tariffau cymdeithasol, y broses o'u hyrwyddo a'r nifer sy'n eu defnyddio, ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth ymysg cwsmeriaid cymwys.
- **Diogelu cwsmeriaid agored i niwed:** Byddwn yn monitro a yw cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr, ac yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw. Bydd hyn yn cynnwys monitro sut mae darparwyr yn sicrhau bod cwsmeriaid sydd mewn dyled neu'n ei chael hi'n anodd talu yn cael eu trin yn deg. Rydym hefyd yn cyfrannu at waith ar y cyd â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed.
- **Symud oddi wrth hen wasanaethau:** Mae rheoli'r broses o symud oddi wrth hen wasanaethau, fel gwasanaethau ffôn llinell dir traddodiadol a gwasanaethau symudol 2G/3G, yn elfen allweddol o'r achos busnes dros fuddsoddi mewn rhwydweithiau newydd. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu cynorthwyo a'u diogelu drwy'r cyfnod pontio.
- **Adrodd am ddata:** Byddwn yn parhau i adrodd ar argaeledd rhwydweithiau band eang a symudol, a'r defnydd ohonynt. Bydd hyn yn mesur effeithiolrwydd ein hymyriadau o blaid buddsoddi er mwyn sicrhau bod gwell rhwydweithiau ar gael yn haws ac er mwyn monitro cynnydd cynlluniau a ariennir gan y Llywodraeth.
- **Darpariaeth symudol:** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i wella cywirdeb a chysondeb yr wybodaeth am y ddarpariaeth sydd ar gael; gan edrych ar sut gall gwahanol ffynonellau data yn y byd go iawn roi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr am y perfformiad symudol y gallant ddisgwyl ei gael yn y man lle byddant yn defnyddio'r gwasanaeth, er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau mwy gwybodus am wasanaethau a darparwyr.
- **Cyflawni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band eang:** Byddwn yn parhau i fonitro'r ffordd mae'r darparwyr dynodedig (BT a KCOM) yn cyflawni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang.

# Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

Amrywiaeth eang o ddulliau diogelu a chyfryngau o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig

**Mae sector cyfryngau'r Deyrnas Unedig yn parhau i drawsnewid mewn ymateb i gystadleuaeth ffyrnig, modelau busnes sy'n esblygu, technolegau newydd a newidiadau parhaus yn ymddygiad cynulleidfaoedd – yn enwedig ymysg gwylwyr a gwrandawyr iau. Mae ein dull rheoleiddio hefyd yn addasu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn dal yn gwbl ganolog i'n holl waith.**

3.9 Mae'r sectorau darlledu a'r cyfryngau yn rhan bwysig o ddiwylliant ac economi'r Deyrnas Unedig. Mae cynulleidfaoedd yn mwynhau amrywiaeth anhygoel o gynnwys gan amrywiaeth eang o ddarparwyr – cynnwys wedi'i ddarlledu yn ogystal â chynnwys ar-lein. Yn y cyd-destun hwn sy'n datblygu, mae ein Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn parhau'n gonglfaen – gyda'u ffocws ar newyddion sy'n ddigon cywir ac yn ddigon diduedd, darparu rhaglenni o ansawdd uchel o bob gwlad a rhanbarth, ac adlewyrchu amrywiaeth cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig.

3.10 Mae ein gwaith rheoleiddio'n canolbwyntio mwy a mwy ar ddefnydd cynyddol cynulleidfaoedd o wasanaethau cyfryngau ar-lein, ac effaith yr ymyrraeth ddigidol ar farchnadoedd cyfryngau. Oherwydd graddfa a chyflymder y newid, mae llawer o waith eto i'w wneud i ddiogelu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

3.11 Byddwn yn parhau i warchod cynulleidfaoedd rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol, ac yn diogelu rhyddid mynegiant drwy osod a gorfodi safonau darlledu ac ar-alw. Rydym yn gwneud pob math o waith i gynnal manteision cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i holl gynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig a'r economi greadigol ehangach. Rydym hefyd yn mynd ati i ddiogelu cystadleuaeth deg, rhoi sylw i amrywiaeth y diwydiant, a hyrwyddo lluosogrwydd y gwasanaethau teledu a radio sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig.

**5awr 16m**

Ar gyfartaledd, treuliodd cynulleidfaoedd ar draws y DU 5 awr 16 munud y pen yn gwylio cynnwys teledu a fideo bob dydd

BBC iPLAYER | itv HUB | 4

Bu cynnydd o dair munud y pen ar gyfartaledd bob dydd yn yr amser a dreuliwyd yn gwylio gwasanaethau fel BBC iPlayer, ITV Hub ac All 4 i 15 munud yn 2021, gan wrthbwyso'n rhannol y dirywiad mewn mathau eraill o wylio teledu darlledu

3.12 Wrth gyflawni ein gwaith i ddarparu 'cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi', rydym yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol i ddefnyddwyr:

- Bod cynulleidfaoedd yn gallu gwylio a gwrando ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig ac sy'n adlewyrchu ei hamrywiaeth.
- Bod pobl yn gallu ymddiried yn yr hyn maen nhw'n ei wylio ac yn gwrando arno – a bod newyddion a ddarlledir yn gywir ac yn ddiduedd.
- Bod lluosogrwydd a dewis o amrywiaeth eang o ddarparwyr a chynhyrchwyr sy'n cystadlu'n deg am gynulleidfaoedd.
- Bod cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, a rhyddid mynegiant yn cael ei ddiogelu.

3.13 Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd ein rhaglenni a'n prosiectau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- **Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM) a Bil Cyfryngau:** Yn ein Hadolygiad mawr, *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, gwnaethom argymell mynd ati ar frys i ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mynegodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bwriad i ddeddfu yn ei Phapur Gwyn dilynol ar Ddarlledu, *Nesaf* ym mis Ebrill 2022. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gyflawni'r diwygiadau angenrheidiol, gan gynnwys sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac yn amlwg ar-lein. Yn amodol ar newid deddfwriaethol, byddwn yn sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio presennol yn gweithio mor effeithiol â phosibl, gan gynnwys drwy sicrhau bod yr holl Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn cyfrannu at y cylch gwaith Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus; ac edrych yn fanwl ar sut mae'r farchnad yn gwasanaethu buddiannau plant. Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o adnewyddu trwyddedau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus masnachol ac yn adolygu'r canllawiau a'r codau perthnasol fel y bo'n briodol.
- **Monitro perfformiad y BBC ac effaith ar y farchnad:** Byddwn yn parhau i ddal y BBC i gyfrif am ei berfformiad ar gyfer ei holl ddyletswyddau, gan gynnwys:
- Canolbwyntio ar sut mae'r BBC yn addasu proses gwynion BBC yn Gyntaf i sicrhau ei bod yn dryloyw ac yn gweithio'n dda i gynulleidfaoedd. Rydym wedi cyfarwyddo'r BBC i fod yn fwy tryloyw mewn perthynas â chwynion am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy. Rhaid i'r BBC gyhoeddi'n awr ei resymeg derfynol ym mhob un o'r achosion hyn.
- Monitro'r broses o weithredu canfyddiadau Adolygiad Serota (a'r Cynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol), a sut mae'r BBC yn mynd ati i gynyddu hyder y cyhoedd yn ei agwedd at ddidueddrwydd dyladwy.
- Dal y BBC i gyfrif am y ffordd mae'n cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus o dan Drwydded Weithredu newydd y BBC.
- Parhau i adolygu effaith gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y BBC ar y farchnad, i sicrhau nad yw'n cael gormod o effaith ar gystadleuaeth.
- **Diogelu ymddiriedaeth yn y newyddion:** Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom gyhoeddi ein barn ar rôl cyfryngwyr ar-lein o ran cael gafael ar gynnwys newyddion a sut mae hyn yn effeithio ar sut mae pobl yn cael gafael ar newyddion. Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn drwy ymgynghori ar gynigion i ddiogelu lluosogrwydd yn y cyfryngau, cyn cyflwyno unrhyw argymhellion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig erbyn 2024. Rydym yn cynnal ymchwil i anghenion cynulleidfaoedd lleol, gan gynnwys mewn perthynas â newyddion lleol, er mwyn llywio gwaith yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i orfodi'r gofynion ynghylch didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy ar draws yr holl ddarlledwyr rydym yn eu rheoleiddio.

- **Cynnal safonau fideo ar-alw (VOD):** Fel y rheoleiddiwr cynnwys ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw sydd wedi'u sefydlu yn y Deyrnas Unedig, byddwn yn mynd ati dros y flwyddyn nesaf i sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â gofynion statudol ynghylch cynnwys niweidiol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gefnogi cynigion i sicrhau bod y safonau sy'n berthnasol i wasanaethau fideo ar-alw yn cyd-fynd yn agosach â'r rheini sy'n berthnasol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu, fel sy'n cael ei amlinellu ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth. Rydym wedi comisiynu ymchwil newydd i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd a fydd yn canolbwyntio ar agweddau pobl at wylio ar-alw.
- **Seinyddion clyfar a setiau teledu wedi'u cysylltu:** Mae cyfryngwyr cynnwys, fel setiau teledu cysylltiedig, seinyddion clyfar a chynorthwywyr llais, yn dod yn fwyfwy pwysig i lawer o bobl gael mynediad at gynnwys. Fel rhan o raglen Marchnadoedd Digidol Ofcom, byddwn yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â'u rôl ym marchnadoedd cyfryngau'r Deyrnas Unedig.
- **Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad:** Bydd ein gwaith yn parhau i esblygu dros y flwyddyn nesaf, ar ôl lansio ein pecyn cymorth ar gyfer tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad yn ddiweddar, gan gynnwys model aeddfedrwydd newydd, holiadur meintiol a chanllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer y diwydiant. Gan ddefnyddio'r dulliau newydd hyn, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad data blynyddol ar amrywiaeth, sy'n rhoi manylion am gyfansoddiad gweithluoedd yn niwydiant darlledu'r Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn edrych ar waith mwy penodol, er enghraifft darn o waith ar y cyd sy'n ymwneud ag arolygon ymadael, yn ein ffocws parhaus ar gadw talent yn y sector.

3.14 Er bod gwasanaethau ar-lein yn dod yn fwy ac yn fwy pwysig i lawer o gartrefi, mae gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu yn dal i gael eu defnyddio'n eang ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae tri chwarter o bobl yn dal i wylio teledu byw, ac mae tua naw o bob deg oedolyn yn gwrando ar radio byw bob wythnos. Felly, mae ein Cynllun Gwaith yn cynnwys pob math o waith i barhau i ddiogelu a hyrwyddo dewis o raglenni o ansawdd uchel ar gyfer pob cynulleidfa ar draws y Deyrnas Unedig, a drwy wasanaethau darlledu ac ar-alw.

- **Amddiffyn cynulleidfaoedd darlledu rhag niwed:** Byddwn yn parhau i osod a gorfodi safonau cynnwys yn ein gwaith fel rheoleiddiwr ar ôl darlledu ar gyfer cynnwys teledu a radio a ddarlledir. Byddwn yn cymryd camau gorfodi cadarn yn erbyn darlledwyr sy'n torri ein rheolau, gan roi blaenoriaeth i orfodi rheolau sy'n ymwneud â niwed posibl i'r gynulleidfa. Mae hyn yn cynnwys darlledu cynnwys sy'n debygol o ysgogi troseddu, iaith casineb heb gyd-destun, sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag amrywiaeth o ddeunyddiau eraill a allai fod yn niweidiol, a chynnal didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag cynnwys a ddarlledir sy'n anaddas iddyn nhw, a byddwn yn cynnal ymchwil newydd ar ddeunydd treisgar a rhywiol a fydd yn cael ei chyhoeddi yn 2023.
- **Defnyddio data ac arloesi wrth ddelio â chwynion:** Byddwn yn parhau i ddatblygu a phrofi'r offer sy'n seiliedig ar ddata a ddefnyddir i wella'r ffordd rydym yn asesu cwynion. Byddwn yn edrych ar ddefnyddio technoleg arloesol i wella effeithlonrwydd ein systemau delio â chwynion.
- **Rheoleiddio hysbysebion:** Rydym yn disgwyl cadarnhau, yn rhan gyntaf 2023, unrhyw gamau nesaf yn ein hadolygiad o reolau'r Cod Amserlennu Hysbysebion Teledu ('COSTA'). Byddwn hefyd yn parhau â'r paratoadau i gyflwyno cyfyngiadau statudol newydd ar hysbysebu cynnyrch sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr (HFSS) a fydd yn berthnasol i hysbysebion teledu, yn ogystal â hysbysebion ar-alw ac ar-lein. Yn olaf, byddwn yn parhau â'n gwaith gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ei Rhaglen Hysbysebion Ar-lein, er mwyn sicrhau bod y broses o reoleiddio hysbysebion ar draws gwahanol gyfryngau yn dal yn gydlynol ac yn effeithiol.
- **Hygyrchedd gwasanaethau teledu ac ar-alw:** Byddwn yn parhau i orfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad wrth ddarlledu – isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion – yn ogystal â gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno gofynion newydd ar hygyrchedd. Rydym yn adolygu ein canllawiau 'arferion gorau' ar ddarparu gwasanaethau mynediad o ansawdd uchel. Byddwn hefyd yn monitro ac yn cyhoeddi gwybodaeth am hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni darlledu ac ar-alw i bobl sydd â namau ar eu golwg a/neu ar eu clyw.
- **Trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio:** Byddwn yn parhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer yr holl wasanaethau teledu masnachol lleol a chenedlaethol, gwasanaethau radio masnachol digidol a gwasanaethau radio cymunedol digidol, a gwasanaethau radio analog cyfyngedig. Byddwn yn parhau i ymateb i geisiadau gan randdeiliaid i wneud newidiadau i'r trwyddedau hynny lle bo hynny'n briodol.
- **Cefnogi llwyfannau ar gyfer gwasanaethau darlledu:** Byddwn yn ehangu'r dewis i wrandawyr drwy drwyddedu gwasanaethau radio digidol DAB graddfa fach newydd ledled y Deyrnas Unedig, ac yn adnewyddu'r trwyddedau ar gyfer yr amlblecsau sy'n darparu gwasanaethau DAB lleol a Theledu Daearol Digidol (DTT). Ochr yn ochr â hynny, byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith ar ddarparu cynnwys teledu a sain dros IP.


## Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein

Mae llwyfannau'n cael eu cymell i leihau niwed a gwneud defnyddwyr yn fwy diogel

**Mae gwasanaethau ar-lein yn dod yn fwyfwy canolog i'n bywydau, gan ddod â chyfleoedd enfawr o ran y llif rhwydd o wybodaeth, cyfleoedd addysgol a masnachol, a'r gallu i fynegi eich hun ac i greu cymunedau byd-eang. Fodd bynnag, daw heriau yn eu sgil hefyd, yn enwedig o ran y posibilrwydd i ledaenu cynnwys niweidiol neu i hwyluso ymddygiad niweidiol.**

3.15 Rydym am i bawb yn y Deyrnas Unedig allu byw bywyd mwy diogel ar-lein – byddwn yn defnyddio ein pwerau presennol i sicrhau bod llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig yn gwarchod eu defnyddwyr, a byddwn yn parhau â'n gwaith i wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ein rhaglen 'Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau'. Rydym hefyd yn paratoi ar gyfer ein dyletswyddau newydd fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y Deyrnas Unedig, a'r flwyddyn hon rydym yn disgwyl dechrau gweithredu'r pwerau newydd hyn i wella diogelwch ar-lein.

3.16 Drwy'r Bil Diogelwch Ar-lein, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sefydlu trefn reoleiddio newydd ar gyfer diogelwch ar-lein, a fydd yn cael ei goruchwylio gan Ofcom. Bydd y Bil yn mynnu bod gwasanaethau sy'n darparu peiriannau chwilio a chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn asesu'r risgiau i'w defnyddwyr, a bod ganddyn nhw systemau a phrosesau cymesur i warchod unigolion, yn enwedig plant, rhag niwed anghyfreithlon ar-lein. Bydd hefyd yn mynnu bod darparwyr pornograffi yn sicrhau nad yw plant yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig.




3.17 Er mai diogelwch ar-lein yw ffocws y Bil, wrth i ni ysgwyddo ein dyletswyddau newydd, byddwn yn sicrhau bod ein dull gweithredu yn cynnal pwysigrwydd rhyddid mynegiant ar-lein.

3.18 Er mwyn sicrhau newid parhaol, bydd angen i ni sicrhau bod diogelwch defnyddwyr yn rhan gwbl ganolog o'r broses o wneud penderfyniadau am wasanaethau ar-lein. Byddwn hefyd yn defnyddio ein pwerau adrodd ar dryloywder i daflu goleuni ar ba mor effeithiol yw systemau a phrosesau llwyfannau o ran diogelu eu defnyddwyr, ac i gymell rhagor o welliannau.

3.19 Rydym eisoes yn rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig, fel TikTok, Snapchat a Twitch, a bydd y profiad o'r drefn hon yn helpu i lywio ein gwaith diogelwch ar-lein.

3.20 Wrth wneud ein gwaith yn y maes hwn, byddwn yn ceisio cyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Bod Ofcom yn cael ei sefydlu fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein credadwy a dibynadwy.
- Bod camau gweithredu disgwyliedig yn cael eu nodi i adnabod a mynd i'r afael â niwed blaenoriaeth ar-lein.
- Bod cwmnïau ar-lein yn deall beth mae angen iddyn nhw ei wneud i roi diogelwch ar-lein wrth galon y ffordd maen nhw'n gweithredu, gan ddiogelu rhyddid mynegiant ar yr un pryd.
- Bod gan ddefnyddwyr ddealltwriaeth glir o'r hyn maen nhw'n gallu ei wneud i fod yn fwy diogel ar-lein.

3.21 Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol i gefnogi'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

## Llwyfannau Rhannu Fideos

3.22 Ym mis Hydref 2022 cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol cyntaf a oedd yn ymwneud â gwaith Ofcom i reoleiddio llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig. Fe wnaethom adrodd ar y camau roedd y llwyfannau hyn wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r drefn newydd. Rydym hefyd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer yr ail flwyddyn, yn enwedig sut mae llwyfannau'n gosod, yn gorfodi ac yn profi eu hagwedd at ddiogelwch defnyddwyr. Byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Sicrhau bod llwyfannau rhannu fideos wedi rhoi prosesau digonol ar waith ar gyfer pennu ac adolygu telerau ac amodau cynhwysfawr (a elwir fel arfer yn Ganllawiau Cymunedol) sy'n rhoi sylw i bob niwed perthnasol.
- Gwneud yn siŵr bod llwyfannau rhannu fideos yn defnyddio ac yn gorfodi eu Canllawiau Cymunedol yn gyson ac yn effeithiol, er mwyn mynd i'r afael â chynnwys niweidiol yn ymarferol.
- Adolygu'r adnoddau y mae llwyfannau rhannu fideos yn eu darparu er mwyn galluogi defnyddwyr i reoli eu profiad, a hybu mwy o ymgysylltu â'r mesurau hyn.
- Bwrw ymlaen â'r gwaith o roi trefniadau cadarn ar waith i gadarnhau oedran er mwyn diogelu plant rhag y cynnwys ar-lein mwyaf niweidiol gan gynnwys pornograffi.

## Diogelwch Ar-lein

- **Rhoi'r drefn diogelwch ar-lein ar waith ar ôl i'r Bil Diogelwch Ar-lein ddod yn gyfraith:** Rydym yn paratoi i roi'r drefn ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl i'n pwerau statudol ddod i rym. Byddwn yn dechrau'r broses o ymgynghori ar y saernïaeth reoleiddio, gan gynnwys y Codau Ymarfer a'r canllawiau ar elfennau o'r drefn sy'n ymwneud â chynnwys anghyfreithlon (gan gynnwys y niwed mwyaf difrifol i blant fel Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant) a diogelu plant rhag cynnwys cyfreithlon ond niweidiol. Bydd union amseriad yr ymgynghoriadau hyn yn dibynnu ar pryd mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn dod yn gyfraith. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth pan fydd gennym fwy o eglurder ynghylch amserlenni seneddol.
- **Ymgysylltu â gwasanaethau ar-lein o fewn ffiniau'r drefn newydd:** Byddwn yn nodi set gychwynnol o wasanaethau risg uchel neu fawr eu heffaith rydym yn dymuno ymgysylltu â nhw. Byddwn yn ceisio gosod disgwyliadau clir o ran natur ein hymgysylltiad â'r gwasanaethau hyn, er mwyn deall eu hasesiad a'r mesurau lliniaru risgiau y mae'r rheini sy'n defnyddio eu gwasanaethau yn eu hwynebu, gan gynnwys drwy ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu perthynas â'r ystod amrywiol o wasanaethau sy'n rhan o'r drefn diogelwch ar-lein, a datblygu ein dealltwriaeth ohonyn nhw. Ar ben hynny, byddwn yn ceisio datblygu adnoddau i hybu cydymffurfedd â'r drefn diogelwch ar-lein.

- **Datblygu ein heffeithiolrwydd gweithredol:** Mae’r drefn newydd ar gyfer diogelwch ar-lein yn golygu bod dyletswyddau Ofcom yn ehangu’n sylweddol. Drwy ein gwaith ymchwil a dadansoddi parhaus, byddwn yn parhau i ddatblygu’r sylfaen dystiolaeth ynghylch niwed ar-lein a’r opsiynau ar gyfer mynd i’r afael â nhw. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig, yn enwedig mewn meysydd lle gallai rhyngweithio neu gyfaddawdu ddigwydd rhwng ein hamcanion, gyda’r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) yn fforwm allweddol ar gyfer cydweithredu. Byddwn yn gweithio gyda llunwyr polisïau a rheoleiddwyr tramor sy’n gweithredu trefn debyg neu’n ystyried un – gan gynnwys drwy’r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang sydd newydd gael ei lansio. Bydd hyn yn arwain at gysondeb ac yn lleihau beichiau rheoleiddiol lle bo’n bosibl, ac yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd rheoleiddio.

## Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau

3.23 Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau yw ein prif raglen ym maes ymwybyddiaeth o gyfryngau ar-lein. Yn ogystal â’n cyhoeddiadau ymchwil helaeth, rydym yn canolbwyntio ar ganfod sut mae gwella darpariaeth ymwybyddiaeth o’r cyfryngau ar gyfer cymunedau nad ydyn nhw’n cael eu gwasanaethu’n ddigonol a gweithio gyda llwyfannau i gyd-greu egwyddorion arfer gorau ar gyfer ymwybyddiaeth o’r cyfryngau yn fwriadol. Mae hyn yn seiliedig ar ein pwyslais ar ymgysylltu â’r sector, academyddion, cyllidwyr a llwyfannau i rannu ymchwil, arbenigedd, adnoddau gwerthuso a’r hyn sy’n gweithio.

3.24 Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith ar draws ein pum ‘Elfen’, fel y nodwyd yn ein dogfen Dull Gweithredu a gyhoeddwyd yn 2021. Mae hyn yn cynnwys:

- Ymgysylltu â’r sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb, ein Panel Cynghori a gweithgorau arbenigol.
- Sefydlu egwyddorion arfer gorau ar gyfer ymyriadau ar-y-llwyfan i annog ymwybyddiaeth o’r cyfryngau yn fwriadol.
- Comisiynu amrywiaeth o ymyriadau peilot ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer grwpiau nad ydyn nhw’n cael eu gwasanaethu’n ddigonol ledled y Deyrnas Unedig.
- Cyhoeddi pecyn o adnoddau digidol i hyrwyddo dull cyffredin o werthuso cynlluniau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau.
- Parhau i gynyddu ein sylfaen dystiolaeth i lywio ein gwaith ni a gwaith y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

# Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach

Sicrhau defnydd effeithlon o sbectrwm a chefnogi twf ar draws yr economi

**Mae gan gyfathrebu di-wifr ran gynyddol bwysig ar draws sawl sector yn yr economi – gan ddarparu ein newyddion, ein cysylltu â ffrindiau a theulu, awtomeiddio ffatrïoedd, cefnogi gwasanaethau cyhoeddus a monitro ein hamgylchedd naturiol. Mae datblygiadau technolegol yn gwneud modelau busnes a rhaglenni newydd ac arloesol yn bosibl, sy’n golygu bod mwy o bobl a sefydliadau’n defnyddio technoleg ddi-wifr.**

3.25 Mae sbectrwm radio yn cynnal amrywiaeth eang o raglenni a thechnolegau di-wifr, gyda'r galw'n cynyddu’n gyflym ymysg defnyddwyr presennol a newydd. Ond, mae’n adnodd cyfyngedig, ac rydym yn ei reoli er budd pawb yn y Deyrnas Unedig. Ein nod yw hybu effeithlonrwydd a chefnogi arloesi, gan sicrhau bod yr adnodd anweledig a hanfodol yma'n cael ei ddefnyddio’n effeithiol.

Rydym yn cynnal ymgyrchoedd mesur cynhwysfawr i ddilysu darpariaeth symudol; y llynedd yn unig, bu i ni fesur data darpariaeth ar draws 15,000 milltir o ffyrdd y DU a chasglu tua 2 biliwn o bwyntiau data



3.26 Mae sbectrwm yn elfen hanfodol sy’n sail i amrywiaeth eang o dechnolegau a gwasanaethau di-wifr sy’n rhan o’n bywydau bob dydd, ac sy’n cynorthwyo busnesau a gwasanaethau cyhoeddus. Mae’r rhain yn cynnwys cysylltiadau symudol, Wi-Fi, di-wifr (fel Bluetooth), gwasanaethau teledu a radio darlledu, a llywio â lloeren. Mae’r sbectrwm hefyd yn hanfodol i gefnogi’r gwasanaethau brys, rheoli traffig awyr a radar, a’n lluoedd arfog. Rydym am alluogi'r gwasanaethau presennol i arloesi a datblygu, yn ogystal â diwallu anghenion sbectrwm rhaglenni newydd.

3.27 Yn wyneb y cynnydd hwn ac, mewn llawer o achosion, y galw cystadleuol am sbectrwm, cyflwynodd Ofcom Strategaeth Rheoli Sbectrwm ym mis Gorffennaf 2021, sy’n egluro sut byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer rheoli sbectrwm. Ym mis Tachwedd 2022 cyhoeddwyd ein Map Ffordd Sbectrwm a oedd yn canolbwyntio ar yr hyn y byddwn ni’n ei wneud i gyflawni’r weledigaeth hon. Er na fydd defnyddwyr o reidrwydd yn dod ar draws y canlyniadau rydym ni’n ceisio eu cyflawni gyda’r flaenoriaeth hon, mae’r rhan fwyaf o bobl yn mynd ati bob dydd i ddefnyddio’r gwasanaethau rydym ni’n eu galluogi.

3.28 Wrth ymgymryd â'n gwaith i 'alluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach', rydym yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- "Cadw pethau i fynd" drwy ddyletswyddau busnes-fel arfer (trwyddedu, cynllunio, sicrwydd a chydymffurfio).
- Mae sbectrwm ar gael i alluogi'r diwydiant cyfathrebu i fodloni'r twf a'r arloesi a ragwelir mewn gwasanaethau symudol a di-wifr i ddefnyddwyr.
- Mae sbectrwm ar gael i ddiwallu anghenion arbenigol sectorau allweddol (er enghraifft, cyfleustodau, gweithgynhyrchu, trafnidiaeth).
- Ychwanegu rhagor o ddefnyddwyr drwy welliannau parhaus o ran effeithlonrwydd defnyddio sbectrwm.
- Buddiannau'r Deyrnas Unedig yn cael eu cynrychioli'n effeithiol mewn trafodaethau rhyngwladol ar ddyrannu a defnyddio sbectrwm.

3.29 Yn unol â'n Strategaeth Rheoli Sbectrwm a'n map ffordd, bydd ein rhaglen waith yn cynnwys:

- **Monitro a chefnogi'r broses o ddatblygu a chydgyfeirio rhwydweithiau:** Byddwn yn parhau â'n gwaith i alluogi mynediad at sbectrwm i gefnogi cystadleuaeth, arloesi a thwf ar draws gwahanol sectorau, a byddwn yn adolygu sut bydd datblygu a chydgyfeirio rhwydweithiau yn y dyfodol yn effeithio ar sbectrwm. Rydym yn disgwyl y bydd nifer o ddatblygiadau technoleg yn arwain at sbectrwm mwy effeithlon sy'n gweithio'n well, ac y bydd gwahanol fodelau cyflwyno'n bosibl. Gallwn ddisgwyl i'r datblygiadau newydd hyn gael eu cynnwys mewn rhwydweithiau yn y dyfodol, fel 6G a lloeren a Wi-Fi y genhedlaeth nesaf.
- **Cyflymu arloesi a rhannu sbectrwm:** Byddwn yn parhau i ymgysylltu â defnyddwyr presennol a newydd y sbectrwm er mwyn deall eu hanghenion sy'n esblygu a sicrhau bod ein dulliau awdurdodi yn addas i'r diben. Rydym wedi cyhoeddi dros 1,000 o drwyddedau mynediad a rennir, a byddwn yn adolygu ein fframwaith i weld beth sy'n gweithio'n dda ac a oes angen i ni addasu ein dull gweithredu yng ngoleuni profiad a diddordeb cynyddol ystod ehangach o ddefnyddwyr sbectrwm. Byddwn yn dechrau gweithio i greu'r amodau i gynorthwyo diwydiant a'r byd academaidd i ddatblygu technolegau newydd er mwyn gallu rhannu mwy o sbectrwm gan ddefnyddio 'blychau tywod ar gyfer sbectrwm'.
- **Gwella'r broses o gasglu a dadansoddi data at ddibenion rheoli sbectrwm:** Mae defnyddio data o'r byd go iawn ar gyfer ein modelau ymledu a chydfodolaeth, gwell dealltwriaeth o antenau gweithredol, a gwell dealltwriaeth o ddefnyddio bandiau yn feysydd â mwy o ffocws a gafodd eu henwi yn ein map sbectrwm; maen nhw'n hollbwysig er mwyn gwella ein dealltwriaeth o sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio, a llywio ein polisïau yn y dyfodol yn sgil y galw cynyddol. Dylai ein dull arfaethedig o ganiatáu i ddefnyddwyr gofnodi digwyddiadau ymyriant gan ddefnyddio API helpu i wella ein gallu i ganfod, datrys a hyd yn oed rheoli problemau ymyriant cyn iddyn nhw ddigwydd.

3.30 Mae'r meysydd gweithgarwch uwch hyn yn cael eu hategu gan raglen waith barhaus sy'n cyfrannu'n sylweddol at wneud y defnydd gorau o sbectrwm ledled y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys:

- **Mwy o arweiniad rhyngwladol ar reoli sbectrwm:** Gan weithio gyda'r Llywodraeth, byddwn yn parhau i gynrychioli buddiannau'r Deyrnas Unedig yn effeithiol mewn trafodaethau a chytundebau rhyngwladol ar ddyrannu sbectrwm a'i ddefnyddio ar gyfer pawb sy'n defnyddio sbectrwm. Byddwn yn arwain dirprwyaeth y Deyrnas Unedig i Gynhadledd Radio'r Byd yn 2023 (WRC-23) a fydd yn gwneud penderfyniadau ar amrywiaeth o faterion allweddol sy'n ymwneud â'r sbectrwm, sydd â'r potensial i ddylanwadu'n sylweddol ar sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys: defnyddio'r band 6GHz uwch yn y dyfodol i gefnogi twf band eang di-wifr, sbectrwm ar gyfer gwasanaethau teledu daearol digidol yn y dyfodol, a defnyddio'r band UHF yn y dyfodol yn ogystal ag ystyried eitemau tymor hwy i'w trafod yng Nghynhadledd Radio'r Byd-27. Byddwn hefyd yn ceisio dylanwadu ar esblygiad y rheolau ar gyfer rheoli ymyriant lloeren mewn orbit heb fod yn ddaearsefydlog ac yn fwy cyffredinol ar ddatblygu'r fframweithiau rhyngwladol ar gyfer rheoli sbectrwm a defnyddio'r adnodd orbitol.
- **Cefnogi defnyddwyr sbectrwm:** Rydym yn rheoli tua 400,000 o drwyddedau sbectrwm byw a byddwn yn parhau i roi cyngor a chymorth i'r defnyddwyr sbectrwm hyn ochr yn ochr â gwaith i ddarparu mwy o wasanaethau trwyddedu ar-lein. Byddwn yn cefnogi'r defnyddwyr hyn ymhellach drwy ymchwilio i ymyriant niweidiol a defnyddio sbectrwm heb drwydded neu'n anghyfreithlon a lleihau'r risg o ymyriant drwy gyfyngu ar yr offer nad ydyn nhw'n cydymffurfio sydd ar gael ar y farchnad.
- **Cynllunio amleddau sbectrwm:** Byddwn yn ymwneud â gwaith cynllunio technegol amleddau ar gyfer trwyddedeion sy'n defnyddio'r un sbectrwm mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys ar gyfer darlledu radio a theledu. Byddwn yn sicrhau ac yn cynllunio sbectrwm i ddefnyddwyr sbectrwm mewn digwyddiadau pwysig yn y Deyrnas Unedig, fel Eurovision 2023 a Choroni Ei Fawrhydi'r Brenin Charles III.
- **Monitro a mesur allyriadau:** Byddwn yn sicrhau bod allyriadau o offer radio o fewn lefelau y cytunwyd arnyn nhw'n rhyngwladol er mwyn diogelu'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn mesur allyriadau o ffonau symudol a mastiau cyfathrebiadau eraill, gan wneud yn siŵr bod trwyddedeion yn cydymffurfio â chyfyngiadau allyriadau ac yn darparu gwybodaeth a chyngor lle bo angen.

## Rheoleiddio gwasanaethau post

3.31 I sicrhau bod pawb yn gallu parhau i ddibynnu ar wasanaethau post ledled y wlad, byddwn yn parhau i reoleiddio gwasanaethau post. Rydym eisiau gwneud yn siŵr y gall pobl a busnesau gael gafael ar wasanaethau cyfathrebu, ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl wrth i wasanaethau esblygu.

3.32 Mae'r farchnad bost wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i'r galw newid o lythyrau i barseli. Mae bron pawb yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio gwasanaethau post yn rheolaidd, megis i dderbyn nwyddau ar ôl siopa ar-lein, i gael gohebiaeth feddygol bwysig, neu i anfon cardiau at ffrindiau a pherthnasau. Mae ein fframwaith rheoleiddio yn sail i'r farchnad bost, ac felly mae'n bwysig bod ein dull rheoleiddio yn dal yn berthnasol, yn effeithiol ac yn addas i'r diben. Mae hyn yn cynnwys adolygu a oes angen newid y ffordd y mae'r sector yn cael ei reoleiddio yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad ac anghenion esblygol defnyddwyr.

3.33 Byddwn yn parhau i fonitro'r sector post fel rhan o'n dyletswydd statudol i sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, sy'n mynnu bod llythyrau a pharseli'n cael eu danfon i bob cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig am brisiau unffurf a fforddiadwy ac yn unol ag ansawdd gwasanaeth uchel. Fel rhan o hyn, byddwn yn asesu perfformiad y Post Brenhinol yn ystod 2022/23 ac yn penderfynu a ddylid agor ymchwiliad. Bydd y broses honno hefyd yn ystyried Seithfed Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol 2022-23, sy'n nodi pryderon bod y Post Brenhinol wedi methu â chyflawni yn erbyn rhannau o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.

3.34 Yn ystod 2023/24 bydd ein rhaglen fonitro yn cael ei gwella, i adlewyrchu casgliadau ein hadolygiad o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer post yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau a rhwymedigaethau newydd yn y farchnad parseli ar gyfer delio â chwynion. Bydd y gwaith monitro gwell hwn hefyd yn edrych ar gynnydd effeithlonrwydd y Post Brenhinol a chynaliadwyedd tymor hwy y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) o ystyried, fel y nodwyd yn ein hadroddiad monitro blynyddol diweddaraf, bod yr ansicrwydd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd wedi cynyddu'n ddiweddar.

3.35 Mae'r Post Brenhinol wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei fod wedi cysylltu â'r Llywodraeth i geisio diwygio gofynion sylfaenol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post. Mater i'r Llywodraeth yw hyn, ond rydym yn barod i gymryd rhan mewn unrhyw ystyriaeth bellach o ddyfodol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.

3.36 Mae capiau diogelu yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn parhau i fod yn fforddiadwy. Daw'r cap diogelu presennol ar brisiau stampiau Ail Ddosbarth y Post Brenhinol i ben ym mis Mawrth 2024. Byddwn yn adolygu cwmpas a lefel briodol y capiau diogelu a fydd yn berthnasol o fis Ebrill 2024 ymlaen.

# 4. Y Gwledydd

4.1 Dylai gwasanaethau cyfathrebu ddiwallu anghenion pobl a busnesau ni waeth beth yw eu lleoliad daearyddol ac mae yna agweddau unigryw ar y ffordd y caiff gwasanaethau cyfathrebu eu darparu a'u derbyn yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a rhai rhanbarthau yn Lloegr. Mae ein timau yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast yn sicrhau ein bod yn deall ac yn mynd i'r afael ag amgylchiadau penodol defnyddwyr a rhanddeiliaid ym mhob un o'r gwledydd. Mae ein Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol statudol yn ein cynghori ynghylch buddiannau a phryderon pobl sy'n byw yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, ac maen nhw'n rhan bwysig o'n proses o lunio polisïau.

4.2 Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym mhob gwlad yn sicrhau bod safbwyntiau a buddiannau rhanddeiliaid, defnyddwyr a chynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli ar lefel Bwrdd yn Ofcom. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n adeiladol â llofnodwyr pob Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan gynnwys y llywodraethau a'r seneddau perthnasol, wrth gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer 2023/24.

4.3 Mae safbwyntiau cynulleidfaoedd ar draws y Deyrnas Unedig hefyd yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cynnwys Ofcom, sydd ag aelodau profiadol yn cynrychioli pob un o'r gwledydd. Mae gofyniad statudol i bob un o wledydd y Deyrnas Unedig fod â'i chynrychiolydd ei hun ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, sy'n rhoi sylw penodol i anghenion pobl hŷn a phobl anabl, pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl sydd ar incwm isel. Bydd fforddiadwyedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni wrth i ni gefnogi gwaith i godi ymwybyddiaeth a chynyddu'r nifer sy'n defnyddio tariffau cymdeithasol band eang, gan gydnabod y bydd pwysau ariannol yn cael eu teimlo'n wahanol mewn gwahanol rannau o'r wlad.

4.4 Rydym wedi ymrwymo i gael gweithlu sy'n gynrychioliadol o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Ochr yn ochr â'n swyddfa ym Manceinion, lle rydym yn cynyddu ein presenoldeb yng ngogledd Lloegr, rydym yn parhau i gynyddu ein presenoldeb yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast. Isod, gallwch weld amlinelliad o'r prif feysydd gwaith a blaenoriaethau ar gyfer pob un o'n gwledydd.

## Yr Alban

4.5 Wrth gyflawni Blaenoriaethau ein Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/24 rydym yn parhau i gydnabod bod heriau neilltuol ac anghenion penodol ar draws yr Alban yn sectorau rheoledig Ofcom. Er enghraifft, mae daearyddiaeth yr Alban yn cyflwyno heriau unigryw o ran darparu gwasanaethau cyfathrebiadau effeithiol a dibynadwy i'n trefi a'n pentrefi mwyaf gwledig ac anghysbell. Mae gan gynulleidfaoedd anghenion penodol hefyd ac maen nhw'n disgwyl i ddiwylliant ac amrywiaeth yr Alban gael eu hadlewyrchu mewn gwasanaethau darlledu lleol a chenedlaethol. Bydd Ofcom yn yr Alban yn parhau i ymgysylltu ledled y wlad i adlewyrchu hyn.

4.6 Byddwn yn gwneud gwaith i sicrhau bod rhwydweithiau cyfathrebu yn ddiogel ac yn gadarn, gan gynnwys ar draws ynysoedd yr Alban lle gall cyfnodau segur mawr gael effaith sylweddol ar gymunedau lleol. Byddwn hefyd yn parhau i roi cyngor technegol a rheoleiddiol, yn ogystal â data perthnasol (lle bo'n briodol), er mwyn helpu Llywodraeth yr Alban i gyflawni ei phrosiectau seilwaith telegyfathrebiadau allweddol (fel Reaching 100% a rhaglenni mewnlenwi 4G yr Alban) a sicrhau rhyngweithio mor esmwyth â phosibl â chynlluniau eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus.

4.7 Byddwn yn datblygu partneriaethau newydd (ac yn adeiladu ar y rhai presennol) gyda diwydiant, y byd academaidd a sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn yr Alban sy'n darparu rhaglenni arloesol ac atebion busnes, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau di-wifr. Fel rhan o hyn, byddwn yn hyrwyddo gwaith ein Canolfan Arloesi Data ymhlith rhanddeiliaid allweddol yn yr Alban, gan edrych ar gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau fel Scotland 5G Centre, Scottish AI Alliance, Scottish IS, Data Lab a CivTech. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r corff newydd, Consumer Scotland, i gyflawni nodau cyffredin.

4.8 Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw ein sectorau darlledu a chynhyrchu annibynnol i ddiwylliant ac economi'r Alban. Drwy gydol 2023/24 byddwn yn parhau i ymgysylltu ar faterion rheoleiddio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gydag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys STV, BBC Scotland, Channel 4 yn yr Alban a Screen Scotland. Mae gan Ofcom hefyd ddyletswyddau statudol i benodi i Fwrdd MG ALBA. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban ar recriwtio i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn yn ôl yr angen.

4.9 Ein nod yw bod pawb yn yr Alban a'r Deyrnas Unedig yn gallu byw bywyd mwy diogel ar-lein. Felly, byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraethau ac asiantaethau perthnasol i sicrhau bod y drefn diogelwch ar-lein arfaethedig yn gweithio'n ddidrafferth mewn cyd-destun datganoledig. Byddwn hefyd yn ymgysylltu mwy â'r sectorau technoleg a gemau yn yr Alban i sicrhau eu bod wedi ymrwymo'n llwyr i'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith diogelwch ar-lein newydd.

## Gogledd Iwerddon

4.10 Fel rhan o'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth Gogledd Iwerddon – a oedd yn golygu penodi Aelod Bwrdd cyntaf Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon yn 2022 – byddwn yn parhau i weithio gydag Adrannau i ddarparu cymorth rheoleiddiol a chyngor technegol ar faterion allweddol fel cyflwyno ffeibr llawn, diogelwch a chadernid telegyfathrebiadau, symud oddi wrth yr hen wasanaethau, cysylltedd symudol a phwysau costau byw. Bydd hyn yn cynnwys bod yn rhan o dasglu chwalu rhwystrau fel rhan o Gynllun Gweithredu Symudol y Llywodraeth, sy'n ceisio cael gwared ar rwystrau i wella cysylltedd 4G a 5G.

4.11 Byddwn yn cydnabod newidiadau i'r dirwedd darlledu yn lleol ac ar draws y DU, wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i sicrhau bod ganddyn nhw ddealltwriaeth glir o hyd o bwysigrwydd cynnwys a chynulleidfaoedd lleol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at ofynion rheoleiddio sy'n sicrhau bod gwaith cynhyrchu ac amlygrwydd cynnwys yn golygu bod cynulleidfaoedd Gogledd Iwerddon yn cael eu gwasanaethu'n dda.

4.12 Byddwn yn ceisio cryfhau a dyfnhau'r berthynas rhwng rhanddeiliaid lleol mewn diogelwch ar-lein wrth i'r Bil symud ymlaen ac wrth i'r drefn reoleiddio ddatblygu. Byddwn yn gweithio gyda swyddogion yn Adrannau'r Llywodraeth, y sector technoleg lleol, grwpiau diogelu a grwpiau eiriolaeth defnyddwyr i wella dealltwriaeth o'r drefn reoleiddio wrth iddi ddatblygu, ac i sicrhau y rhoddir digon o ystyriaeth i faterion Gogledd Iwerddon wrth i ni gefnogi hynt y Bil Diogelwch Ar-lein yn Senedd y Deyrnas Unedig.

4.13 Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon – ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon – ac yn cynnig cyngor i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff defnyddwyr i helpu i sicrhau bod pobl a busnesau yng Ngogledd Iwerddon yn parhau i elwa o wasanaethau cyfathrebu sy'n cael eu darparu ar draws y Deyrnas Unedig ac ar draws yr ynys gyfan.

## Cymru

4.14 Mae meithrin perthynas waith dda gyda'n rhanddeiliaid yn rhan ganolog o waith Ofcom yng Nghymru. Byddwn yn parhau â'n dull cydweithredol a chreadigol o ymgysylltu â'n holl randdeiliaid – Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Aelodau Seneddol, Comisiynydd y Gymraeg, diwydiant a phartneriaid ar bob mater sy'n berthnasol mewn da bryd. Bydd hyn yn caniatáu i Ofcom ddeall safbwyntiau amrywiol a chryfhau ei benderfyniadau am fuddiannau defnyddwyr yng Nghymru.

4.15 Cymraeg 2050 yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer creu Cymru ddwyieithog. Mae Ofcom wedi ymrwymo'n llwyr i chwarae ei ran i helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy sicrhau bod defnyddwyr yng Nghymru yn gallu cysylltu ag Ofcom yn Gymraeg yn rhwydd. Mae Ofcom wedi bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, fel y nodir yn ei hysbysiad cydymffurfio, ers mis Ionawr 2017. Byddwn yn adolygu ein prosesau ac yn adolygu a ydym yn cydymffurfio â'r safonau er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus.

4.16 Byddwn yn parhau i weithio gyda darlledwyr yng Nghymru i helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru yn cael gwasanaeth da ar deledu a radio yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

4.17 Byddwn yn parhau i gyfrannu at weithgor y Rhwydwaith Gwledig a Rennir yng Nghymru ac yn monitro'r cynnydd o ran rhoi'r Rhwydwaith hwnnw ar waith, gan sicrhau bod cymunedau gwledig yn gweld y manteision disgwyliedig. Yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd, byddwn yn cydweithio i godi ymwybyddiaeth o dechnolegau amgen a allai gynnig atebion ymarferol i rai cymunedau.

## Lloegr

4.18 Byddwn yn parhau i fynd i'r afael ag anghenion cyfathrebu amrywiol pobl ym mhob rhan o Loegr. Bydd Pwyllgor Cynghori statudol Lloegr yn parhau i nodi materion sy'n effeithio ar y sectorau cyfathrebiadau a phost yn Lloegr ac yn cynghori Ofcom ar y materion hyn.

4.19 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â’r Llywodraeth, Aelodau Seneddol lleol ac awdurdodau lleol i gefnogi cyflymder cyflwyno ffeibr llawn a mwy o ddarpariaeth symudol yn ogystal â sicrhau dibynadwyedd a chadernid rhwydweithiau. Bydd ein hadroddiad Cysylltu’r Gwledydd blynyddol yn tynnu sylw at yr anghysondebau o ran mynediad at ddarpariaeth symudol a band eang sefydlog da a dibynadwy rhwng gwahanol rannau o’r wlad.

4.20 Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ecoleg cyfryngau fywiog y Deyrnas Unedig drwy dynnu sylw at wahanol arferion defnyddio cynulleidfaoedd yn Lloegr a’u profiadau o ddefnyddio’r cyfryngau. Mae adroddiad diweddaraf Cyfryngau'r Genedl yn dangos bod darpariaeth gwasanaethau DAB lleol wedi cynyddu yn 2021 ar ôl lansio amlblecsau newydd yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Mae sicrhau ein bod yn pwyso am fwy o amrywiaeth a chynhwysiad ar draws y sector cyfryngau, yn enwedig mewn cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, yn dal yn rhan hanfodol o’n gwaith er mwyn i gynulleidfaoedd gael gafael ar gynnwys sy’n adlewyrchu profiadau cynulleidfaoedd ledled Lloegr yn gywir.

# 5. Sut rydym yn cyflawni

5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu sut byddwn yn cyflawni ein hymrwymiadau a nodir uchod drwy ein dull o weithio mewn partneriaeth a chydweithio, ein gwaith sylfaenol, buddsoddi yn ein gallu sefydliadol a defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau.

## Partneriaethau

5.2 Rydym yn cydnabod na all Ofcom wneud llawer o'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni ar gyfer defnyddwyr a'n sectorau ar ei ben ei hun, ac rydym yn dibynnu fwyfwy ar amrywiaeth o bartneriaethau pwysig yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

### Partneriaethau domestig

- **Parhau i weithio gyda rheoleiddwyr digidol eraill drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF).** Mae'r Fforwm yn dwyn ynghyd y prif reoleiddwyr yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau digidol – y CMA, yr FCA, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom – a gyda'i gilydd maen nhw'n ysgogi mwy o gydweithio rheoleiddiol ac yn darparu dulliau gweithredu cyson ar gyfer rheoleiddio digidol. Cyhoeddodd y Fforwm ei ail gynllun gwaith ym mis Ebrill 2022, gan gynnwys prosiectau i helpu i fynd i'r afael â rhai o'n heriau digidol mwyaf, o sicrhau diogelwch a phreifatrwydd plant ar-lein i weithio ar ddulliau gweithredu ar y cyd i reoleiddio defnyddio algorithmau, sganio'r gorwel a galluogi arloesi. Bydd Prif Weithredwr y Fforwm yn gweithio gyda Phrif Weithredwyr aelodau'r Fforwm i oruchwylio'r gwaith o gyflawni trydydd cynllun gwaith blynyddol y Fforwm, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2023.
- **Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN).** Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr[3] eraill yn y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â heriau cyffredin ar draws gwahanol sectorau ac i rannu arferion gorau fel aelod o'r Rhwydwaith hwn. Yn arbennig, byddwn yn parhau i gyfrannu at waith ar y cyd â'r Rhwydwaith i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed.
- **Panel Cynghori a Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Ar hyn o bryd mae gan ein Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau 460 o aelodau sy'n cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan gydweithio i wella llythrennedd yn y cyfryngau yn y Deyrnas Unedig. Mae ein Panel Cynghori yn llywio gwaith Ofcom i helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein oedolion a phlant y Deyrnas Unedig. Mae'r Panel yn darparu gwybodaeth gan randdeiliaid i gefnogi a herio ein ffordd o feddwl.

---

[3] Yr Awdurdod Hedfan Sifil; yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol; y Cyngor Adrodd Ariannol; Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; Awdurdod Gogledd Iwerddon ar gyfer Rheoleiddio Cyfleustodau; y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan; y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd; y Rheoleiddiwr Systemau Talu; y Rheolydd Pensiynau; y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol; y Swyddfa Rheoliadau Un Ffynhonnell; yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr.

- **Gorfodi'r gyfraith a'r gymuned wybodaeth.** Byddwn yn cryfhau ein perthynas â chyrff gorfodi'r gyfraith a'r gymuned wybodaeth o ran ein cyfrifoldebau diogelwch ar-lein, diogelwch telegyfathrebiadau a'n cyfrifoldebau sbectrwm. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau fel yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, yr Heddlu Metropolitanaidd, Heddlu Dinas Llundain, Heddlu'r Alban a Phencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y Deyrnas Unedig (GCHQ).
- **Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).** Byddwn yn parhau â'n perthynas waith agos â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ym maes diogelwch rhwydweithiau telegyfathrebu.

## Partneriaethau rhyngwladol

5.3 Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen ymgysylltu rhyngwladol ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Mae effaith trawsnewid digidol ein sectorau yn golygu bod ein gwaith rhyngwladol hyd yn oed yn bwysicach o ran cyflawni ein hamcanion. Mae'r materion rheoleiddio rydym yn eu hwynebu yn gyffredin ar draws y byd, ac rydym yn ymgysylltu â set fyd-eang o randdeiliaid. Mae ein gwaith parhaus yn y maes hwn yn cynnwys:

- Cydweithio â chymheiriaid rheoleiddio, llywodraethau, arbenigwyr academaidd a chymdeithas sifil, gan gynnwys drwy ymgysylltu â nifer o randdeiliaid. Byddwn yn parhau i ddyfnhau ein cysylltiadau rhyngwladol presennol ac yn archwilio rhai newydd, gan gyfnewid profiadau ac arferion gorau ar draws pob un o'r sectorau a reoleiddir gennym a'u cyd-destunau ehangach. Yn benodol, byddwn yn eiriol dros arferion cyffredin a chydweddoldeb trefniadau rheoleiddio ym maes diogelwch ar-lein sy'n dod i'r amlwg. Rydym ymhlith yr aelodau a sefydlodd y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang, y byddwn yn ei ddefnyddio i yrru'r agenda hon yn ei blaen. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid Ewropeaidd ar weithredu rheolau ar gyfer llwyfannau rhannu fideos a llwyfannau eraill.
- Sicrhau canlyniadau i'r Deyrnas Unedig drwy'r Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU). Rydym yn cynrychioli'r Deyrnas Unedig yn yr ITU, lle mae'r Deyrnas Unedig yn aelod newydd o'r Cyngor Llywodraethu, ar gyfer 2023-2026. Ein hamcanion strategol yn yr ITU yw sicrhau canlyniadau da i'r Deyrnas Unedig yng ngwaith ei dri sector:
  - Cefnogi rheolau ar gyfer radiogyfathrebiadau;
  - Cysoni safonau telegyfathrebiadau byd-eang; a
  - Dod â phrofiad Ofcom i gynorthwyo gwledydd sy'n datblygu.

## Datblygu sgiliau a galluoedd

5.4 Yn ogystal â'n polisi a'n gwaith ategol uchod, mae ein swyddogaethau proffesiynol yn ategu ein prosiectau i sicrhau rhagoriaeth broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch ar draws disgyblaethau technoleg, data, economeg, y gyfraith, gorfodi, strategaeth ac ymchwil.

5.5 Er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i fod yn effeithiol wrth gyflawni ein blaenoriaethau, mae'r swyddogaethau hyn yn esblygu, a byddwn yn cynyddu eu gallu, yn enwedig yng ngoleuni ein dyletswyddau newydd:

- **Datblygu ein gallu i fod yn ddiogel ar-lein:** Gyda'n cyfrifoldebau newydd i greu bywyd mwy diogel ar-lein, rydym eisoes wedi cymryd camau sylweddol i feithrin ein sgiliau a'n harbenigedd, gan gynnwys drwy recriwtio cydweithwyr newydd o bob rhan o'r sector technoleg a sefydliadau cymdeithas sifil. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i ehangu'r gallu hwn, gan gynnwys drwy sefydlu Grŵp Diogelwch Ar-lein newydd yn Ofcom.
- **Ehangu ein swyddogaeth technoleg:** Gan gydnabod rôl technoleg o ran siapio'r galw, ysgogi tueddiadau defnyddwyr a darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr a busnesau, rydym yn cryfhau ein harbenigedd pwnc ar draws amrywiaeth o dechnolegau ac yn mabwysiadu dull gweithredu 'technoleg yn gyntaf' ar gyfer datblygu polisïau ar draws holl gylch gwaith rheoleiddio Ofcom.
- **Data a digidol:** Rydym yn cynyddu ein gallu data ac yn mabwysiadu'r technegau diweddaraf ar gyfer casglu, prosesu a dadansoddi gwybodaeth a defnyddio technegau dadansoddi uwch i gael gwybodaeth o setiau data cymhleth.
- **Ehangu ein dealltwriaeth fasnachol:** Rydym yn parhau i gryfhau dealltwriaeth Ofcom o flaenoriaethau masnachol, cymhellion a modelau busnes y rhanddeiliaid rydym yn eu rheoleiddio.
- **Sganio'r gorwel:** Diogelu ein gwaith ar gyfer y dyfodol drwy fuddsoddi yn ein gallu i edrych y tu hwnt i'n blaenoriaethau tymor byr, uniongyrchol i ddeall sut gall ffactorau fel y farchnad, technoleg ac ymddygiad defnyddwyr esblygu.
- **Cyfreithiol a Gorfodi:** Datblygu ein gallu a'n capasiti cyfreithiol a gorfodi i reoli ein cylch gwaith sy'n ehangu.

5.6 Yn ail chwarter 2023/24, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn crynhoi'r cynnydd rydym yn ei wneud tuag at gyflawni Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad Ofcom ar gyfer 2021-2026. Mae'r adroddiad cynnydd yn cynnwys gwybodaeth ar broffil amrywiaeth cydweithwyr yn Ofcom yn gyffredinol a gwybodaeth am feysydd fel cyflogau, recriwtio, perfformio a dyrchafiadau. Mae'r adroddiad yn ein helpu i benderfynu ar beth y byddwn yn canolbwyntio o ran cynhwysiad yn y gweithle yn y flwyddyn i ddod.

## Bod yn sail i waith ehangach ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio

5.7 Mae ein grwpiau proffesiynol yn cyflawni gwaith sylfaenol, ar y cyd â rhannau eraill o'r sefydliad, i ategu ein gwaith polisi. Amlinellir rhai o'r gweithgareddau pwysig hyn a rhaglenni penodol isod.

- **Ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth:** Mae ein holl waith yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn ymchwilio i farchnadoedd cyfathrebiadau a dewisiadau ac ymddygiad defnyddwyr er mwyn darparu dealltwriaeth drwyadl a chyfredol o bobl a busnesau ac mae dyletswydd arnom i gynnal ymchwil defnyddwyr a sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd. Rydym yn parhau i archwilio dulliau ymchwil arloesol gan gynnwys drwy ein panel ar-

lein ein hunain, cyfleoedd am fesur goddefol, ein hymchwil ar sail rhithffurfiau a data torfol, yn ogystal ag ymchwil i berfformiad band eang. Rydym yn cyfuno'r gwaith ymchwil hwn â data sy'n cael ei gasglu'n uniongyrchol gan y diwydiant a thrydydd partïon. Rydym yn sicrhau bod ein data a'n gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd, drwy adroddiadau, setiau data rhyngweithiol ac APIs, gan gynnwys Cysylltu'r Gwledydd, Cyfryngau'r Genedl, Ein Gwlad Ar-lein, Cymharu Ansawdd Gwasanaethau, Perfformiad Band Eang yn y Cartref, Materion Symudol, Arferion Prisio Gwasanaethau Cyfathrebu, Cael Gafael ar Newyddion, Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, ac Agweddau Plant a'u Defnydd o Gyfryngau.

- **Dealltwriaeth o ymddygiad:** Rydym wedi sefydlu Canolfan Dealltwriaeth o Ymddygiad i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o sut mae defnyddwyr yn gwneud penderfyniadau, y rhwystrau a'r sbardunau sy'n siapio eu hymddygiad a ffyrdd o annog defnyddwyr i ymgysylltu'n well â phenderfyniadau. Er mwyn gwneud gwyddor ymddygiad yn rhan o'r broses o lunio polisïau, rydym yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i ddeall ymddygiad defnyddwyr a busnesau ac i fesur yr hyn sy'n gweithio, gan gynnwys treialon maes a phrofion ar-lein.
- **Papurau trafod economaidd:** Pwrpas ein cyfres barhaus o bapurau trafod economaidd yw annog trafodaeth ar bob agwedd ar reoleiddio'r cyfryngau a chyfathrebiadau, a chyfrannu at y sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir i greu tystiolaeth gadarn i gefnogi ein penderfyniadau. Bydd ein hymchwil yn parhau i roi sylw i bynciau sy'n ymwneud â'n hamcanion, fel Data, Marchnadoedd Digidol a Gwrthod Cyflenwi a Hyd trwyddedau sbectrwm symudol a phenderfyniadau buddsoddi gweithredwyr rhwydweithiau symudol.
- **Deall effaith ein gwaith:** Mae deall effaith ein gwaith rheoleiddio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr yn agwedd bwysig ar wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ar ran pobl yn y Deyrnas Unedig. Byddwn yn adolygu ac yn cyhoeddi ein canllawiau asesu effaith a byddwn yn sicrhau bod ein dull o werthuso polisi yn dilyn yr arferion gorau.
- **Arloesi technolegol:** Rydym eisiau meithrin amgylchedd lle mae arloesi yn ffynnu, yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio ac o fewn Ofcom. I gyflawni hyn, byddwn yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o sut mae technoleg yn sbarduno newid ar draws ein sectorau a'r effaith bosibl ar sut rydym yn gweithio. Er enghraifft, byddwn yn cynnal ymchwil i dechnolegau trawsbynciol fel dysgu peirianyddol ac yn archwilio sut gall y defnydd cynyddol o wasanaethau cwmwl newid sut mae cwmnïau telegyfathrebiadau a'r cyfryngau yn darparu eu gwasanaethau, gan gyfrannu at ein Hastudiaeth Marchnad Cwmwl. Gan edrych yn allanol, byddwn hefyd yn edrych ar sut gallwn hwyluso mwy o arloesi yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.
- **Peirianneg data a dadansoddi:** Mae'r Ganolfan Arloesi Data yn darparu arweiniad a chyngor canolog ar draws Ofcom ar sut mae modd defnyddio data a dadansoddiadau uwch i greu syniadau ar gyfer ein penderfyniadau mewn ffordd effeithiol, effeithlon a diogel. Wrth i ofynion data'r sefydliad ddod yn fwy cymhleth, byddwn yn sicrhau bod yr offer, y sgiliau dadansoddi a'r galluoedd cywir ar gael i bobl er mwyn creu argraffiadau o ddata.
- **Polisi technoleg:** Mae ein tîm Polisi Technoleg newydd yn pontio'r bwlch rhwng timau polisi a thechnoleg, drwy arwain ar faterion trawsbynciol sy'n cael effaith ar draws y sefydliad. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi ymateb y sefydliad i ddatblygiadau polisi ehangach a fydd yn cael effaith ar draws ein sectorau, e.e. hunaniaeth ddigidol a rheoleiddio AI.
- **Y Gofrestrfa Gwybodaeth:** Mae gan y Gofrestrfa Gwybodaeth rôl yn cydlynu ceisiadau ffurfiol ac anffurfiol am wybodaeth ac mae'n gweithio gyda rhanddeiliaid ar amseriad ein ceisiadau

arfaethedig a'n hadborth ar gasglu gwybodaeth. Mae'r tîm yn darparu arbenigedd a chymorth gweithredol ar gyfer casglu data Ofcom gan randdeiliaid ar draws gwaith Ofcom, yn ogystal â pharatoi i ategu'r gwaith o roi systemau newydd ar waith.

- **Cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd:** Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn sbardun cynyddol bwysig i benderfyniadau masnachol gan lawer o gwmnïau cyfathrebu. Mae'n galonogol gweld llawer o'n cwmnïau rheoledig yn ymrwymo i gynlluniau sero net i leihau eu heffaith amgylcheddol eu hunain, gan ddarparu gwasanaethau a rhwydweithiau a all helpu i alluogi'r Deyrnas Unedig i ddatgarboneiddio a dod yn fwy effeithlon. Byddwn yn parhau i ystyried ffactorau sy'n berthnasol i gynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd wrth ymgymryd â'n gwaith ar dechnolegau yn y dyfodol, gan gynnwys i'n helpu i ddeall rôl technolegau o'r fath o ran lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd.

## Sicrhau gwerth am arian

5.8 Fel rhan o'n hymdrechion ehangach i sicrhau bod Ofcom yn effeithlon ac yn addas ar gyfer y dyfodol, byddwn yn parhau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar draws y sefydliad. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i symleiddio ac awtomeiddio gweithgareddau, gan adeiladu ar ein gwaith i uwchraddio ein proses trwyddedu sbectrwm. Rydym yn bwriadu defnyddio ein hystâd yn fwy effeithlon ac rydym yn bwriadu lleihau ein hadeiladau yn Llundain 20%, drwy dwf yn ein rhanbarthau – gan ategu ein huchelgais y tu allan i Lundain – a datblygu fframwaith gweithio cysylltiedig sy'n caniatáu i'n gofod gael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol.

5.9 Pan fydd adnoddau'n brin, byddwn yn gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar ein blaenoriaethau a'n dyletswyddau statudol. Mae ein hadnoddau a'n sgiliau'n cael eu hanelu at gyflawni ein cynlluniau a'n dyletswyddau drwy gynllunio strategol a drwy ddelio â'n cyllidebau a'n rhagolygon mewn ffordd integredig. Rydym yn adolygu blaenoriaethau, capasiti a galw yn rheolaidd i wneud yn siŵr ein bod yn gallu bodloni ein hamcanion. Rydym hefyd yn cynyddu ein harbedion effeithlonrwydd drwy ddefnyddio prosesau caffael cystadleuol i sicrhau'r prisiau a'r ansawdd gorau gan ein cyflenwyr. Pan fydd angen buddsoddi, byddwn yn parhau i ddefnyddio rheolaeth ariannol dynn i sicrhau bod yr adnoddau sydd gennym mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

5.10 Ers Adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o Wariant yn 2015 rydym wedi cyflawni arbedion termau real sy'n cyd-fynd â'r sector cyhoeddus ehangach. Ein nod yw bod yn rheoleiddiwr effeithiol ac effeithlon ar gyfer sector cyfathrebiadau sy'n symud yn gyflym. Mae Ofcom yn parhau i sicrhau gostyngiadau cyllidebol cyfatebol tebyg am debyg mewn termau real, a bydd yn parhau i fod yn fwy effeithlon pan fo'n bosibl. Ers 2015, mae cap sylfaenol Ofcom ar gyfer ei ddyletswyddau ar y pryd wedi aros yr un fath (ac eithrio cynnydd untro ar gyfer chwyddiant yn 2020/21), gan leihau'r gost rheoleiddio mewn termau real.

## Cap gwariant ar gyfer 2023/24

5.11 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno ar gap ar wariant cyllideb Ofcom. Rydym wedi cytuno ar gap gwariant o £131.9 miliwn gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Thrysorlys EM, sydd wedi aros yr un fath ers 2021/22 ac sy'n ymwneud â'r dyletswyddau a oedd gennym bryd hynny. Mae hyn wedi arwain at arbedion termau real o 11%. Ers hynny, mae Ofcom wedi cytuno i ymgymryd â dyletswyddau newydd ym maes diogelwch ar-lein, diogelwch telegyfathrebiadau a chyfyngu ar hysbysebu cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen. Mae hyn wedi ychwanegu £55.1 miliwn at ein cap gwario, gan ddod â chyfanswm ein cap gwario i £187m. Caiff ein costau eu hadennill gan y gweithredwyr yn y sectorau a hefyd drwy gadw'r derbyniadau rydym yn eu casglu o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) ar gyfer trwyddedu sbectrwm. Bydd y ffioedd sy'n ddyledus gan bob sector yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'n Datganiad Cynllun Gwaith yn ein tablau tariff ym mis Mawrth 2023. Mae'r cynllun gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y tariffau rydym wedi'u gosod, a does dim newid wedi bod yn y fethodoleg rydym wedi'i defnyddio i gyfrifo'r costau hyn.

# A1. Beth rydym yn ei wneud

A1.1 Cenhadaeth Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau’n gweithio i bawb. Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, darlledu cynnwys radio a theledu, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a’r sbectrwm radio y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y Deyrnas Unedig i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag ymarfer niweidiol a rhag cael eu trin yn niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr. Mae Ofcom yn rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig, ac rydym ar fin ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y Deyrnas Unedig o dan y Bil Diogelwch Ar-lein. Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau.

A1.2 Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd Brydeinig ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a’r Llywodraethau datganoledig. Rydym yn rhoi cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith ar weithredu darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang yn y Deyrnas Unedig) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y Deyrnas Unedig (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

## Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

A1.3 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae’n gweithredu’n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol. Yn ôl Deddf Cyfathrebiadau 2003, ein prif ddyletswydd o ran cyflawni ein swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny’n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu’r gwasanaeth post cyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau’n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

## Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n llywio cyfeiriad ein gwaith

A1.4 Mae ein prif ddyletswyddau cyfreithiol wrth gyflawni ein gwaith yn cynnwys sicrhau:

- bod gan y Deyrnas Unedig amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- y gwneir y defnydd gorau posibl o’r sbectrwm radio;
- bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o safon yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, sy'n apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;

- bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu heb gyfiawnhad;
- bod y BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaeth â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a
- bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y Deyrnas Unedig.

A1.5 Ym mis Tachwedd 2020, daeth rheolau newydd i rym a oedd yn rhoi’r cyfrifoldeb i Ofcom dros sicrhau bod Llwyfannau Rhannu Fideos a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig yn cymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr sy’n defnyddio’r gwasanaethau hynny rhag y perygl o wylio cynnwys niweidiol. Mae’r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i benodi Ofcom yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein yn y Bil Diogelwch Ar-lein, sydd wrthi’n cael ei graffu gan y Senedd Brydeinig ar hyn o bryd. Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein, ymysg pethau eraill, yn cyflwyno dyletswydd newydd ar Ofcom i sicrhau, wrth gyflawni ein swyddogaethau, y bydd digon o amddiffyniad i ddinasyddion rhag niwed a achosir gan gynnwys ar wasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio, drwy’r defnydd priodol gan ddarparwyr gwasanaethau, systemau a phrosesau o’r fath sydd wedi eu dylunio i leihau’r risg o niwed o’r fath.

A1.6 Ar 1 Hydref 2022, dechreuodd y drefn reoleiddio newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Telathrebu (Diogelwch) 2021 yn ffurfiol. Mae’r Ddeddf yn gosod dyletswyddau diogelwch newydd cryfach ar ddarparwyr telegyfathrebiadau, gyda phwerau newydd i’r Llywodraeth nodi gofynion diogelwch. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldebau newydd ar Ofcom i sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio.

A1.7 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo’r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau, yn wahanol i’w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo’n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) rydym wedi'u cymeradwyo.

## Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

A1.8 Yn ogystal â’n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i wneud y canlynol:

- gorfodi’r gwaharddiadau ar gytundebau gwrth-gystadleuol a chamddefnyddio safle goruchafol, a nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998; ac
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

A1.9 Byddwn yn ystyried a yw’n fwy priodol arfer pwerau’r Ddeddf Cystadleuaeth neu’r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

# A2. Gwaith prosiect ar gyfer 2023/2024

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Diogelwch a chadernid rhwydweithiau.** Byddwn yn cyflawni ein rôl gorfodi a monitro cydymffurfiaeth o dan y fframwaith diogelwch telegyfathrebiadau newydd. Byddwn yn parhau i wneud yn siŵr bod gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch ac yn ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau i gynnal cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST). Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant i ganfod a chau bylchau mewn safonau ac arferion gorau, cyhoeddi arweiniad mewn perthynas â chadernid rhwydweithiau a pharhau â'r rhaglen o fonitro dyluniadau cydnerth yn rhagweithiol wrth ddefnyddio rhwydweithiau presennol. | Parhaus |
| **Amrywiaethu gwerthwyr telathrebu.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio i sicrhau cadwyn gyflenwi fwy cystadleuol, amrywiol, arloesol, diogel a chadarn ar gyfer telegyfathrebiadau. I ategu hyn, bydd Ofcom (ochr yn ochr â Lab Telegyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig pan gaiff ei lansio) yn gweithio i alluogi gwerthwyr mwy newydd i brofi technoleg mewn amgylchedd sy'n fasnachol niwtral drwy lwyfan profi rhwydwaith mynediad radio agored Labordy SONIC (Canolfan Rhyngweithredu Rhwydwaith Agored SmartRAN). Byddwn hefyd yn parhau i rannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd â'r Llywodraeth ar faterion arallgyfeirio, gan gynnwys fel aelod arsylwr o'r Cyngor Cynghorol ar Arallgyfeirio Cadwyn Gyflenwi Telegyfathrebiadau ac fel aelod o Fwrdd Goruchwylio'r UKTL. | Parhaus |
| **Niwtraliaeth y rhyngrwyd.** Mae fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd yn mynnu bod rhwydweithiau'n trin holl draffig y rhyngrwyd ar eu rhwydweithiau yn gyfartal, heb ffafrio rhai gwefannau neu wasanaethau. Yn dilyn ein hymgynghoriad, byddwn yn ceisio cwblhau ein dadansoddiad a'n canllawiau, i sicrhau bod y fframwaith yn parhau i ategu arloesi a dewis defnyddwyr. | Cyhoeddiad<br>Chwarter 3 2023/24 |
| **Astudiaeth o'r farchnad cwmwl.** Byddwn yn cwblhau ein hastudiaeth marchnad ar gyflenwi gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl yn y Deyrnas Unedig er mwyn deall a yw'r farchnad yn gweithio'n dda i fusnesau a defnyddwyr. Bydd yr astudiaeth yn ystyried sut mae'r farchnad yn datblygu a natur cystadleuaeth, gan gynnwys a oes angen cymryd unrhyw gamau. | Ymgynghoriad<br>Chwarter 1 2023/24<br><br>Datganiad<br>Chwarter 3 2023/24 |
| **Adolygu gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein.** Fel rhan o'n gwaith ar y marchnadoedd digidol, rydym yn adolygu a yw defnyddwyr gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein yn cael eu diogelu'n briodol rhag niwed, yn ogystal ag yn ystyried a oes unrhyw broblemau cystadleuaeth yn y marchnadoedd cyfathrebu pwysig hyn i ddefnyddwyr a busnesau yn y Deyrnas Unedig. | Cais am fewnbwn<br>Chwarter 2 2023/24 |

| | |
|---|---|
| **Marchnadoedd ffonau symudol.** Byddwn yn adeiladu ar ein hymgynghoriad 'Dull gweithredu Ofcom ar gyfer marchnadoedd symudol yn y dyfodol', er mwyn deall yn well effaith datblygiadau technolegol a datblygiadau yn y farchnad ar weithrediad y farchnad, ac yn monitro'r canlyniadau i ddefnyddwyr o ran prisiau ac ansawdd a newidiadau i'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi data lefel cwsmeriaid a gasglwyd gennym fel rhan o'r gwaith hwn hyd yma (rydym yn bwriadu cyhoeddi'r data hwn mewn papur trafod) ac adnewyddu'r data hwnnw. | Parhaus |
| **Uned Monitro Openreach (OMU).** Bydd yr Uned yn parhau i fonitro cydymffurfiad BT ac Openreach ag Ymrwymiadau BT, yn ogystal â bod yn effro i unrhyw rwystrau a allai effeithio ar y canlyniadau a nodir yn yr adolygiad o'r farchnad telegyfathrebiadau sefydlog gyfanwerthol (WFTMR). Mae'n dal yn hanfodol bod Openreach a BT yn parhau i weithredu mewn ffordd sy'n strategol annibynnol ar ei gilydd a bod datblygu cystadleuaeth mewn rhwydweithiau cyfradd gigabit yn cael ei ddiogelu yn unol â'r strategaeth a nodir yn yr adolygiad. Rydym yn parhau i annog rhanddeiliaid i gysylltu â ni gydag unrhyw bryderon. | Adroddiad Chwarter 1 2023/24 |
| **Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngrwyd**. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i helpu i sicrhau bod y materion a godwyd drwy eu mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngrwyd, gan gynnwys diffodd y rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN), yn cael eu canfod ac yn cael sylw gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ac amharu cyn lleied â phosibl arnyn nhw. | Parhaus |
| **Diffodd 2G/3G.** Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr symudol i helpu i sicrhau bod cwsmeriaid, yn enwedig grwpiau agored i niwed, yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw ac yn gallu parhau i gael gafael ar eu gwasanaethau wrth i'r rhwydweithiau 3G a 2G gael eu diffodd yn raddol. | Parhaus |
| **Adolygiad o bolisi rhifau yn y dyfodol.** Byddwn yn parhau â'n hadolygiad strategol o'r cynllun rhifau ffôn i sicrhau ei fod yn darparu'r hyn mae defnyddwyr yn ei ddeall, a'r hyn mae arnyn nhw ei eisiau a'i angen gan rifau ar gyfer y degawd nesaf. | Parhaus |
| **Yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn (PSA).** Byddwn yn parhau â'r broses o drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau sy'n cael eu talu dros y ffôn o'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn i Ofcom. Byddwn yn ymgynghori ar orchymyn statudol drafft o dan Adran 122 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. | Ymgynghoriad Chwarter 1 2023/24 |
| **Gwasanaeth band eang cyffredinol.** Byddwn yn parhau i fonitro'r ffordd mae'r darparwyr dynodedig (BT a KCOM) yn cyflawni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Mesur perfformiad band eang mewn cartrefi**. Byddwn yn cyhoeddi data ar berfformiad gwahanol wasanaethau band eang sefydlog i eiddo preswyl a sut maen nhw'n amrywio yn ôl nifer o ffactorau, gan gynnwys technoleg, darparwr band eang, pecyn, daearyddiaeth ac adeg o'r dydd. | Adroddiad Chwarter 1 2023/24 |
| **Rhoi Newid Un Cam ar waith.** Yn dilyn ein penderfyniad i gyflwyno Newid Un Cam (OTS) ar gyfer newidiadau i linellau tir a band eang preswyl, rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod OTS yn cael ei roi ar waith mor gyflym â phosibl. | Parhaus |
| **Fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu.** Byddwn yn monitro ac adrodd i ba raddau y mae aelwydydd yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebiadau, yn enwedig o ran band eang. Byddwn hefyd yn monitro argaeledd tariffau cymdeithasol, y broses o'u hyrwyddo a'r nifer sy'n eu defnyddio, ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth ymysg cwsmeriaid cymwys. | Adroddiad Chwarter 1 2023/24 |
| **Cefnogi cwsmeriaid agored i niwed.** Byddwn yn monitro a yw cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr, ac yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw. Bydd hyn yn cynnwys monitro sut mae darparwyr yn sicrhau bod cwsmeriaid sydd mewn dyled neu'n ei chael hi'n anodd talu yn cael eu trin yn deg. Rydym hefyd yn cyfrannu at waith ar y cyd â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed. | Parhaus |
| **Mynd i'r afael â galwadau niwsans a sgamiau.** Ein nod yw tarfu ar sgamiau drwy annog cwmnïau telegyfathrebiadau i ddatblygu atebion technegol a byddwn yn cryfhau ein rheolau ein hunain ar atal gwasanaethau cyfathrebu rhag cael eu camddefnyddio. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant, y Llywodraeth a rheoleiddwyr eraill i'w gwneud yn anoddach i sgamiau gael eu cyflawni. Byddwn hefyd yn helpu defnyddwyr i osgoi sgamiau drwy godi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth, er mwyn ei gwneud yn haws i bobl allu adnabod ac ymateb i sgamiau. | Ymgynghoriad Chwarter 1 2023/24 |
| **Monitro a chydymffurfio ym maes amddiffyn defnyddwyr.** Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo cydymffurfiad effeithiol â gofynion diogelu defnyddwyr, gan gynnwys ystyried yr amser priodol i gynnal adolygiad pellach o effaith hysbysiadau diwedd contract (ECN) a hysbysiadau tariff gorau blynyddol (ABTN). Rydym yn parhau i fonitro a deall effaith y cynlluniau hyn a chynlluniau gwirfoddol. | Parhaus |
| **Diogelu cwsmeriaid wrth iddynt grwydro.** Byddwn yn parhau â'n gwaith ar brofiadau cwsmeriaid o grwydro symudol a chrwydro anfwriadol. Byddwn yn ystyried a oes angen mesurau i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid. | Ymgynghoriad Chwarter 2 2023/24 |

| | |
|---|---|
| **Codi prisiau ar ganol contract:** Bydd yr adolygiad hwn yn edrych yn benodol ar yr arfer o godi prisiau yn ystod cyfnod contract, sy'n gysylltiedig â chwyddiant a newidiadau canrannol, a gyflwynwyd gan nifer o ddarparwyr yn 2021. Byddwn yn ystyried a oes angen i ni ymyrryd i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael mwy o sicrwydd ac eglurder, o'r cychwyn cyntaf, ynghylch y prisiau y byddan nhw'n eu talu dros gyfnod eu contract. | Cyhoeddiad Chwarter 3 2023/24 |
| **Gwella profiad defnyddwyr a'r wybodaeth ar eu cyfer ynghylch darpariaeth symudol a'i berfformiad.** Rydym yn cynnal rhaglen waith i sefydlu sut dylem adrodd ar argaeledd ac ansawdd darpariaeth symudol er mwyn cyflwyno darlun cyson ar draws rhwydweithiau 4G a 5G. Rydym yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i wella gwybodaeth am ddarpariaeth, ac rydym yn edrych ar sut gall gwahanol ffynonellau data roi mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr am y perfformiad symudol y gallant ddisgwyl ei gael. | Adroddiad Chwarter 2 2023/24 |
| **Cymharu gwasanaethau i gwsmeriaid.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol gan edrych ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid preswyl gan ddarparwyr telegyfathrebiadau sefydlog a symudol. | Adroddiad Chwarter 1 2023/24 |
| **Adrodd ar batrymau prisio**. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar batrymau prisio gwasanaethau sefydlog, symudol a theledu drwy dalu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r prisiau sydd ar gael i ddefnyddwyr sy'n prynu mathau gwahanol o wasanaethau a chrynodeb o beth mae defnyddwyr yn ei dalu, ar gyfartaledd. Bydd hefyd yn edrych ar strwythurau tariff a sut mae prisiau gyda 'disgownt' yn amrywio o brisiau safonol neu brisiau 'rhestr', yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng prisiau mewn contract a phrisiau y tu allan i gontract. | Adroddiad Chwarter 3 2023/24 |
| **Gwella gwybodaeth am fand eang i gwsmeriaid.** Rydym yn parhau â'n gwaith i wella dealltwriaeth cwsmeriaid o'r farchnad band eang ac i rymuso pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am y band eang maen nhw'n ei brynu. Rydym wedi cyhoeddi cynigion i wella gwybodaeth i ddefnyddwyr am y dechnoleg sylfaenol a ddefnyddir i ddarparu eu gwasanaeth band eang, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn nes ymlaen yn y flwyddyn. | Datganiad Chwarter 3 2023/24 |
| **Newidiadau sylweddol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.** Byddwn yn parhau i fonitro gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC i sicrhau bod rhywun yn craffu'n briodol ar unrhyw newidiadau sylweddol o safbwynt rheoleiddio. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Adolygiad Cynulleidfaoedd y BBC.** Rydym wedi lansio adolygiad i archwilio pam mae grwpiau penodol o gynulleidfaoedd, gan gynnwys y rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, yn llai bodlon yn gyson â'r BBC ac i geisio deall eu harferion yn well, a sut mae'r BBC yn cyflawni ar eu rhan. Bydd ein canfyddiadau'n sail i'n hasesiad blynyddol nesaf o berfformiad y BBC. | Adroddiad Chwarter 3 2023/24 |
| **Monitro gweithgareddau masnachol y BBC.** Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar berfformiad ariannol a chyfraddau elw pob un o'i is-gwmnïau masnachol a phob llinell busnes yn yr is-gwmnïau masnachol hynny. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth y BBC â'n gofynion o ran gwahanu gweithredol a phrisiau trosglwyddo. | Parhaus |
| **Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC.** Byddwn yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau ac yn asesu cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol yn ei Fframwaith Gweithredu a'i Drwydded Gweithredu. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad hefyd sy'n mesur perfformiad y BBC o ran cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus. Yn dilyn ein hadolygiad o Foderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC a'n datganiad ar hynny, byddwn yn datblygu metrigau newydd ar gyfer asesu perfformiad y BBC a byddwn yn monitro sut mae'r BBC yn ymateb i'r gofynion adrodd newydd. | Adroddiad Chwarter 3 2023/24 |
| **Dyfodol gwaith rheoleiddio'r BBC.** Rydym wedi cyhoeddi ein hadolygiad o sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC ac wedi nodi'r newidiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gwaith rheoleiddio'n dal yn addas i'r diben o ran dal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd. Bydd yr adolygiad hwn a'r dystiolaeth ehangach yn cyfrannu at Adolygiad Canol Tymor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o lywodraethu a rheoleiddio'r BBC, a fydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2024. | Parhaus |
| **Aildrwyddedu Channel 3 a Channel 5.** Byddwn yn parhau â'n gwaith i ail-drwyddedu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus Sianel 3 a Sianel 5, yn dilyn penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn ymateb i'n hadroddiad Adran 229. Rhaid i'r rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 wneud cais i adnewyddu'r drwydded erbyn 30 Ebrill 2023. Yn amodol ar hynny, byddem yn disgwyl cwblhau'r trwyddedau newydd erbyn diwedd 2023/24. | Chwarter 4 2023/24 |
| **Aildrwyddedu Sianel 4.** Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth y bydd Corfforaeth Channel 4 (C4C) yn aros ym meddiant y cyhoedd, byddwn yn ymgymryd â'r broses statudol o aildrwyddedu C4C ar gyfer darparu gwasanaeth Channel 4 am y cyfnod ar ôl 2024. | Ymgynghoriad Chwarter 3 2023/24<br>Datganiad Chwarter 4 2023/24 |

| | |
|---|---|
| **Ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4 (C4C).** Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i sut bydd y Gorfforaeth yn cyflawni ei chynlluniau a'i dyletswyddau cynnwys cyfryngau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, fel y nodir yn ei datganiad. | Adroddiad<br>Chwarter 2 2023/24 |
| **Rhaglen Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus.** Yn dilyn ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' yn 2021, rydym yn parhau i weithio gyda'r diwydiant a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a llywodraethau datganoledig a'r Deyrnas Unedig ar sut gellid rhoi ein hargymhellion ar waith i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn parhau i fwynhau amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig, ar wasanaethau darlledu ac ar-lein; a byddwn yn edrych yn fanwl ar sut mae'r farchnad yn gwasanaethu buddiannau plant. | Parhaus |
| **Rheoleiddio fideo ar-alw.** Rydym wedi ymgysylltu'n agos â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl i'r Llywodraeth gyhoeddi ei bwriad i gyflwyno deddfwriaeth newydd a fyddai'n rhoi pwerau i Ofcom ddrafftio a gorfodi cod fideo ar-alw newydd, yn debyg i'r Cod Darlledu. Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil newydd i'n helpu i ddeall yn well beth yw disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran cynnwys sydd ar gael ar wasanaethau fideo ar-alw. | Cyhoeddiad<br>Chwarter 1 2023/24 |
| **Cod hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS).** Wrth i ni aros am eglurder ynghylch gofynion hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw, rydym wedi lansio adolygiad o'n Canllawiau Arfer Gorau mewn perthynas â hygyrchedd darlledu, i'w diweddaru ac i gynnwys canllawiau sy'n benodol i wasanaethau ar-alw. Rydym yn bwriadu ymgynghori ynghylch newidiadau i'r canllawiau hyn. | Ymgynghoriad<br>Chwarter 1 2023/24 |
| **Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu.** Yn 2023, byddwn yn lansio ein pecyn casglu data newydd ar gyfer darlledwyr, sy'n cynnwys: Adnodd hunanasesu/model aeddfedrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad newydd ar gyfer casglu data ansoddol, gwerthuso a chael adborth gan weithwyr; holiadur casglu data meintiol estynedig; a chanllawiau wedi eu diweddaru ar gyfer darlledwyr. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein hadroddiad llawn ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad mewn Darlledu ar gyfer 2022/2023. | Lansio pecyn cymorth<br>Chwarter 1 2023/24<br><br>Adroddiad ar amrywiaeth<br>Chwarter 3 2023/24 |
| **Dyfodol Lluosogrwydd y Cyfryngau yn y Deyrnas Unedig.** Gan barhau â'n hadolygiad o Ddyfodol Lluosogrwydd y Cyfryngau yn y Deyrnas Unedig, byddwn yn adeiladu ar ein rhaglen ymchwil ac yn ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ar y fframwaith cyfreithiol yn y Deyrnas Unedig a allai addasu i'r heriau a achosir i luosogrwydd y cyfryngau gan gyfryngwyr ar-lein a newid arferion cynulleidfaoedd, cyn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig erbyn 2024. | Ymgynghoriad<br>Chwarter 3 2023/24 |

| | |
|---|---|
| **Hysbysebu HFSS: Bil Iechyd a Gofal.** Byddwn yn parhau i baratoi i gyflwyno cyfyngiadau statudol newydd, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ar hysbysebu cynnyrch sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr (HFSS) a fydd yn berthnasol i hysbysebion teledu, yn ogystal â hysbysebion ar-alw ac ar-lein. | Parhaus |
| **Hysbysebu ar-lein.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth iddi adolygu'r gwaith o reoleiddio hysbysebion ar-lein, er mwyn sicrhau bod y broses o reoleiddio hysbysebion ar draws gwahanol gyfryngau yn dal yn gydlynol ac yn effeithiol. | Parhaus |
| **Y Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu (COSTA).** Rydym yn disgwyl cadarnhau unrhyw gamau nesaf yn ein hadolygiad yn gynnar yn 2023/24. | Adolygiad Chwarter 1 2023/24 |
| **DAB ar raddfa fach.** Byddwn yn parhau i hysbysebu a dyfarnu trwyddedau ar gyfer gwasanaethau radio amlblecs ar raddfa fach, a dyfarnu trwyddedau i wasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol, er mwyn ehangu'r dewis i wrandawyr yn sylweddol ledled y Deyrnas Unedig. Bydd y rhaglen DAB ar raddfa fach yn caniatáu lansio tua 200 o amlblecsau, ar gyfer pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Rydym yn disgwyl i'r rhain ddarlledu amrywiaeth o wasanaethau radio, yn amrywio o wasanaethau cymunedol ar lawr gwlad i orsafoedd cerddoriaeth arbenigol, a gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at grwpiau lleiafrifol a chynulleidfaoedd eraill nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol. | Parhaus |
| **Pyrth cynnwys.** Byddwn yn edrych ar y risg y bydd pyrth cynnwys digidol (setiau teledu cysylltiedig, seinyddion clyfar/cynorthwywyr digidol) yn dod yn llwybr hanfodol i'r farchnad mewn ffyrdd a allai ystumio cystadleuaeth, gan effeithio yn y pen draw ar argaeledd, amrywiaeth, ansawdd neu brisiau cynnwys sydd ar gael i ddefnyddwyr. | Parhaus |
| **Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos.** Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar lwyfannau rhannu fideos (VSPs) a nodi ein strategaeth a'n meysydd ffocws ar gyfer blwyddyn nesaf y drefn. Byddwn yn parhau â'n hymgysylltiad goruchwyliol â llwyfannau hysbysedig, yn gweithio ar sicrhau cydymffurfiaeth llwyfannau lle bo angen ac yn cyhoeddi adroddiad pellach. | Adroddiad Chwarter 3 2023/24 |
| **Y Rhaglen Diogelwch Ar-lein.** Paratoi'r sefydliad ar gyfer dyletswyddau newydd o ganlyniad i'r Bil Diogelwch Ar-lein fel yr amlinellir yn ein dogfen 'map ar gyfer rheoleiddio'. Mae blaenoriaethau ac amseroedd yn dibynnu ar ddeddfwriaeth ac maen nhw'n cynnwys parhau â'n gwaith i ategu proses ddeddfwriaethol y Bil; datblygu ein dull rheoleiddio; parhau i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r diwydiant; meithrin ymddiriedaeth ac ymwybyddiaeth; a sefydlu ein gweithrediadau. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Datblygu ac ymgynghori ynghylch ein dull rheoleiddio o ran Diogelwch Ar-lein.** Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch ein dull rheoleiddio ac ar godau ymarfer ar niwed anghyfreithlon. Byddwn hefyd yn gobeithio cyhoeddi canllawiau asesiadau risg ar gyfer niwed anghyfreithlon. | Parhaus<br><br>Ymgynghoriad Chwarter 2 2023/24 |
| **Datblygu ac ymgynghori ynghylch ein dull rheoleiddio o ran Amddiffyn Plant Ar-lein.** Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch ein dull rheoleiddio ac ar godau ymarfer ar amddiffyn plant ar-lein. Byddwn hefyd yn gobeithio cyhoeddi canllawiau asesiadau risg ar gyfer niwed cyfreithiol i blant. | Ymgynghoriad 2023/24 |
| **Sefydlu ein gweithrediadau mewn Diogelwch Ar-lein.** Byddwn yn ymgynghori ar drefn ffioedd, yn sefydlu'r model gweithredu diogelwch ar-lein ac yn gweithredu ein cynllun pontio ar gyfer pobl. Bydd ein Grŵp Diogelwch Ar-lein yn cael ei sefydlu ac yn gwbl weithredol. | Ymgynghoriad erbyn Chwarter 4 2023/24 |
| **Datblygu galluoedd technegol Ofcom i ategu'r gwaith o ddylunio/gweithredu'r drefn Diogelwch Ar-lein.** Rydym yn gweithio i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau ar-lein yn gweithredu er mwyn cyfrannu at gyflawni'r drefn Diogelwch Ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwaith penodol ar: i) amrywiaeth o faterion technegol fel sganio, cymedroli cynnwys, sicrhau oedran ac ati; ii) sganio'r gorwel ar ddatblygiadau technolegol; iii) ymgysylltu â'r byd academaidd a datblygu gwybodaeth ar draws Ofcom; iv) arwain ystyriaethau polisi ar systemau argymell ac archwilio algorithmig; v) arwain ein gwaith ar archwilio algorithmig a thechnolegau rhagweithiol. | Parhaus |
| **Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Byddwn yn parhau i weithio i helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein oedolion a phlant y Deyrnas Unedig. Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith ar draws ein pum 'Elfen', fel y nodwyd yn ein dogfen Dull Gweithredu a gyhoeddwyd yn 2021. | Cyhoeddiad Chwarter 2 2023/24 |
| **Effaith cyflwyno ffeibr a thechnolegau newydd ar ddefnyddio cysylltiadau sefydlog di-wifr yn y dyfodol.** Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad newydd o sut gallai'r galw am sbectrwm ar gyfer cysylltiadau sefydlog mewn bandiau amledd presennol ac uwch esblygu yn y degawd nesaf yn sgil cyflwyno ffeibr yn y dyfodol, technolegau di-wifr newydd fel 5G/6G a lloeren LEO, yn ogystal â rôl cysylltedd di-wifr o ran darparu diswyddiadau ar gyfer cysylltedd ffeibr. | Ymgynghoriad Chwarter 3 2023/24 |
| **Ymgysylltu â'r diwydiant ar ddi-wifr a sbectrwm.** Byddwn yn parhau â'n gwaith i godi ymwybyddiaeth o ddi-wifr a sbectrwm wrth gyflawni trawsnewid digidol ar draws sectorau gwahanol yn y diwydiant. Byddwn yn parhau â'n gwaith ymgysylltu i ddeall a monitro'r defnydd o sbectrwm, canfod y galw nad yw'n cael ei ddiwallu ac ystyried dewisiadau i alluogi'r galw hwn. Byddwn yn parhau i wneud hyn drwy amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys cynnal digwyddiadau, gwahodd rhanddeiliaid i | Parhaus |

| | |
|---|---|
| gyfrannu, mynychu a chymryd rhan mewn amrywiaeth o gynadleddau'r diwydiant. | |
| **Esblygiad band eang di-wifr a goblygiadau o ran y sbectrwm.** Gweithio i ddeall gofynion posibl cenedlaethau symudol yn y dyfodol o ran sbectrwm. Mae hyn yn cynnwys monitro'r galw sy'n dod i'r amlwg am sbectrwm, yn enwedig yn yr ystod 7-20 GHz lle mae rhai wedi mynegi diddordeb yn y diwydiant symudol ar gyfer 6G. Bydd hyn yn sail i'n safbwynt ar unrhyw eitem agenda 6G sy'n cael ei chynnig ar gyfer cyfarfodydd Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yr ITU yn 2023 a 2027. | Parhaus |
| **Defnyddio'r 6 GHz uchaf yn y dyfodol.** Byddwn yn parhau â'n gwaith yn edrych ar ddefnyddio'r band 6 GHz uchaf yn y dyfodol (6.425-7.125 GHz). Ystyrir defnyddio'r band yn y dyfodol ar gyfer defnydd pŵer isel a symudol masnachol sydd wedi'u hesemptio o drwydded, fel Wi-Fi. Yn rhyngwladol, mae'n amodol ar waith yn ITU (mae ar agenda WRC-23) ac yn Ewrop yn CEPT. Byddwn yn ceisio dylanwadu ar ddatblygiadau rhyngwladol ac ymateb iddyn nhw wrth ystyried y dull gorau o ymdrin â'r band yn y Deyrnas Unedig. Byddwn yn edrych ar opsiynau ar gyfer dull "hybrid", lle gallai'r ddau fath o ddefnydd rannu mynediad at y band, a hynny wedi'i hwyluso o bosibl gan fecanwaith rhannu neu set o reolau. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer defnyddio'r band yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol ar adeg briodol. | Parhaus |
| **Profi arloesi drwy flychau tywod.** Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a'r byd academaidd i archwilio ffyrdd newydd o alluogi arloesi a rhannu, mewn lleoliadau daearyddol penodol a bandiau penodol. Byddwn yn dod â gwahanol ddefnyddwyr di-wifr at ei gilydd i arbrofi ar y cyd â thechnegau rhannu newydd mewn amgylcheddau byd go iawn. Drwy wneud hynny mewn amgylchedd blwch tywod, byddwn yn gallu deall amgylchedd cydfodolaeth y byd go iawn yn well a chanfod atebion mwy effeithlon ar gyfer rhannu sbectrwm. | Parhaus |
| **Defnyddio'r band 1900 Mhz yn y dyfodol.** Nid yw'r band sbectrwm 1900-1920 MHz yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd yn flaenorol ar ffioedd trwyddedau blynyddol arfaethedig ar gyfer y sbectrwm hwn (a elwir hefyd yn sbectrwm 'heb ei baru 2100 MHz') bwriadwn ymgynghori ymhellach ar y defnydd o'r band yn y dyfodol yn Chwarter 4 2022-23, gan gynnwys ar gynnig i ddirymu'r trwyddedau 1900-1920 MHz i sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r sbectrwm a sicrhau'r buddion gorau posibl i ddinasyddion a defnyddwyr y Deyrnas Unedig. | Datganiad<br>Chwarter 4 2023/24 |
| **Anghenion cyfathrebu cyfleustodau yn y dyfodol.** Mae'r gofynion cyfathrebu gweithredol ar gyfer cyfleustodau (trydan, nwy a dŵr) yn newid o ganlyniad i amcanion polisi llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau sero net. Rydym yn cynnal adolygiad o'r gofynion cyfathrebu hyn i bennu dewisiadau sbectrwm posibl ar gyfer y sector. | Cyhoeddiad<br>Chwarter 1 2023/24 |

| | |
|---|---|
| **Gweithredu ein Strategaeth Sbectrwm Gofod.** Byddwn yn dechrau gweithio ar sawl maes twf ac arloesi a nodwyd yn strategaeth sbectrwm y gofod, gan gynnwys gwaith i ddiweddaru trwyddedau'r Rhwydwaith Gorsafoedd Daear (ESN) ac ehangu mynediad i'r sbectrwm ar gyfer pyrth lloeren. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro datblygiadau mewn cydgyfeirio daearol a lloeren ac yn nodi'r goblygiadau rheoli sbectrwm perthnasol. | Ymgynghoriad ESN Chwarter 1 2023/24<br>Datganiad ESN Chwarter 4 2023/24<br>Ymgynghoriad ar y Porth Lloeren<br>Chwarter 4 2023/24 |
| **Adolygiad o'r Trwyddedau Mynediad a Rennir.** Byddwn yn adolygu ein dull gweithredu ar gyfer ein bandiau mynediad a rennir gan adeiladu ar ein profiad ers lansio'r fframwaith rhannu yn 2019 ac yng ngoleuni adborth gan randdeiliaid. Rydym wedi gweld diddordeb mewn rhannu mynediad yn cynyddu'n ddiweddar ac rydym yn credu y byddai adolygiad yn amserol o ystyried y cynnydd diweddar yn y galw. | Ymgynghoriad Chwarter 3 2023/24 |
| **Symleiddio'r Drwydded WTA (y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr).** Ochr yn ochr â symud tuag at lwyfan trwyddedu newydd, byddwn yn adolygu ein prosesau trwyddedu a'n dogfennau i sicrhau bod gennym ddull gweithredu effeithlon, gan leihau'r baich ar ein trwyddedeion cymaint ag y bo modd a symleiddio eu hymgysylltiad â ni. Rhan allweddol o'r rhaglen hon fydd ein hadolygiad o drwyddedu Amatur. | Ymgynghoriad ar drwyddedau radio amatur Chwarter 1 2023/24<br>Datganiad Chwarter 4 2023/24 |
| **Esblygiad llwyfannau trwyddedu.** Er mwyn darparu gwell proses ar-lein i'n rhanddeiliaid, a'n galluogi i barhau i ddarparu gwasanaeth trwyddedu sbectrwm effeithlon yn y dyfodol, byddwn yn parhau i fudo ar draws rhai o'n trwyddedau symlach i'n platfform newydd. Rydym hefyd yn ceisio symud ein trwyddedau Mynediad a Rennir, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer trwyddedau a rennir yn y bandiau ton milimetrau. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o awtomeiddio ein prosesau ymhellach a darparu gwybodaeth gliriach am argaeledd sbectrwm. | Trwyddedau ysgafn Chwarter 4 2023/24<br><br>Trwyddedau mynediad a rennir Chwarter 4 2023/24 |
| **Ymgysylltu rhyngwladol ar y sbectrwm.** Byddwn yn parhau i ymgysylltu ar draws Ewrop ac yn fyd-eang; gan weithio'n agos â rhanddeiliaid yn y Deyrnas Unedig, i sicrhau bod buddiannau'r Deyrnas Unedig yn cael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau a phenderfyniadau rhyngwladol ynghylch sbectrwm. Rydym yn goruchwylio paratoadau'r Deyrnas Unedig a byddwn yn arwain dirprwyaeth y Deyrnas Unedig i Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC) - Dubai Tachwedd/Rhagfyr 2023. | Cynhadledd Radio'r Byd Chwarter 3 2023/24 |
| **Adolygiad o Drwyddedau Radio Amatur.** Byddwn yn ymgynghori ar gynigion i symleiddio ein fframwaith trwyddedu ar gyfer trwyddedu radio amatur ac i ymgorffori meysydd gweithgarwch newydd ar gyfer radio amatur. Ein nod yw darparu rheolau clir, wedi'u diweddaru, sy'n rhoi mwy o ryddid i amaturiaid radio weithredu, gan ddefnyddio adborth a ddarperir gan y sector. | Ymgynghoriad<br>Chwarter 1 2023/24<br>Datganiad<br>Chwarter 4 2023/24 |
| **Dyfarnu bandiau sbectrwm wrth iddyn nhw gael eu clirio a'u rhyddhau.** Byddwn yn gwneud ein penderfyniad terfynol ar ddyluniad yr arwerthiant o sbectrwm tonnau milimedr (mmW) at ddibenion newydd ac arloesol, gan gynnwys 5G. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ein cynllun i ddyfarnu sbectrwm yn y band 1.4 GHz. Bydd yr ymgynghoriad yn | Datganiad (mmWave) Chwarter 3 2023/24<br><br>Ymgynghoriad (1.4Ghz) Chwarter 4 2023/24 |

| | |
|---|---|
| cynnwys ein dadansoddiad o heriau cydfodolaeth gyda derbynyddion morol ac awyrennol yn y band cyfagos a dewisiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau hynny. | |
| **Monitro'r farchnad bost a pherfformiad y Post Brenhinol.** Yn ystod 2023/24 bydd ein rhaglen fonitro yn cael ei gwella, i adlewyrchu casgliadau ein hadolygiad yn 2022 o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer post yn y dyfodol: bydd hyn yn cynnwys ystyried effaith canllawiau a rhwymedigaethau newydd yn y farchnad parseli ar gyfer delio â chwynion a thrin cwsmeriaid anabl yn ogystal â monitro cynnydd effeithlonrwydd y Post Brenhinol yn well a chynaliadwyedd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post. | Adroddiad Chwarter 3 2023/24 |
| **Capiau diogelu ar gyfer y post.** Daw'r cap diogelu presennol i ben ym mis Mawrth 2024. Byddwn yn cynnal adolygiad o gwmpas a lefel briodol y capiau diogelu a fydd yn berthnasol o fis Ebrill 2024 ymlaen. Mae ymgynghoriad ar y gweill ar gyfer Haf 2023 ac wedyn datganiad yn Chwarter 3. | Ymgynghoriad Chwarter 2 2023/24<br>Datganiad Chwarter 3 2023/24 |
| **Dyfodol dosbarthu teledu.** Rydym yn cynnal gwaith mewnol trawsbynciol sy'n edrych ar ddyfodol tymor hir dosbarthu teledu llinol yn y 2030au a thu hwnt. Byddwn yn edrych ar beth allai'r goblygiadau fod i gynulleidfaoedd a'n sectorau petai dosbarthiad teledu llinol yn newid, yn enwedig tuag at fodel sy'n gynyddol seiliedig ar IP. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi adolygiad a chyngor i'r Llywodraeth erbyn 2025, fel y cyfeirir ato yn ei Phapur Gwyn ar Ddarlledu, *Nesaf*. | Parhaus |
| **Datblygu dealltwriaeth Ofcom o Ddefnyddwyr Cydgyfeiriol.** Rydym wedi dechrau edrych ar gydgyfeirio digidol fel tuedd sectoraidd ac ar benderfyniadau pobl, yn benodol, rôl ymddiriedaeth fel sbardun i ymddygiad defnyddwyr a phenderfyniadau mewn marchnadoedd cyfathrebiadau ar-lein. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod Ofcom yn parhau i fod yn ymatebol ac yn gallu addasu yn y tymor byr i'r tymor canolig i'r heriau y gallai pobl eu hwynebu mewn marchnadoedd cyfathrebiadau ar-lein. | Parhaus |
| **Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF).** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i gefnogi dull rheoleiddio cydlynol ar gyfer gwasanaethau a materion ar-lein. Bydd y Fforwm yn cyhoeddi ei gynllun gwaith blynyddol a fydd yn amlinellu'r prif feysydd y bydd yn canolbwyntio arnyn nhw yn 2023/24. Bydd hyn yn cynnwys ein swyddogaeth sganio'r gorwel ar y cyd a blaenoriaethau allweddol eraill ar gyfer ein cydweithrediad dros y flwyddyn. | Parhaus |
| **Datblygu dealltwriaeth Ofcom o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg a thechnolegau sy'n tarfu.** Rydym yn ceisio deall effaith bosibl arloesi technolegol ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, gan gynnwys esblygiad technolegau hysbys a thechnolegau newydd radical. Bydd y | Parhaus |

| | |
|---|---|
| gwaith yn cynnwys deall y llwybrau datblygu a gweithredu ar gyfer technolegau rhwydweithio y disgwylir iddyn nhw fod yn sail i rwydweithiau 5G uwch a rhwydweithiau 6G yn y dyfodol; ymchwilio i sut gall technolegau trawsbynciol newid sut mae cwmnïau telegyfathrebiadau a'r cyfryngau yn darparu eu gwasanaethau. | |
| **Datblygu strategaeth ar gyfer defnydd Ofcom o ddata.** Rydym yn ceisio sefydlu strategaeth ddata a fydd yn galluogi Ofcom i ddefnyddio ein data yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiogel yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Bydd y strategaeth ddata yn cael ei datblygu ar y cyd ar draws y sefydliad ar draws pedair prif elfen: Pobl a Chymuned; Llywodraethu, Risg ac Adrodd; Cyflawni a Llif Gwaith; Llwyfan Data. | Cyhoeddiad Chwarter 4 2023/24 |
| **Datblygu dull gweithredu Ofcom o ymdrin â'r fframwaith rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial (AI).** Byddwn yn monitro datblygiad fframwaith rheoleiddio deallusrwydd artiffisial Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn edrych ar y ffordd orau o weithredu hyn yng nghyd-destun y sector cyfathrebiadau. | Parhaus |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyrff safonau technegol.** Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar faterion technegol, yn cyhoeddi data, dadansoddiadau, mewnwelediad a sylwebaeth, ac yn cymdeithasu ein dull rheoleiddio i greu pwysau am newid. Rydym hefyd yn ymwneud â gweithgareddau safonau technegol ac wedi sefydlu Grŵp Cydlynu Safonau Technegol traws-sefydliadol, a byddwn yn cydlynu ac yn darparu cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer ymwneud Ofcom â'r cyrff hyn. | Parhaus |
| **Trawsnewid gallu Ofcom ym meysydd peirianneg data, gwyddor data a dadansoddi data**. Byddwn yn gweithio i drawsnewid gallu Ofcom o ran peirianneg data, gwyddoniaeth a dadansoddeg, gan gyfrannu at y Ganolfan Arloesi Data (sy'n rhoi seilwaith, offer a phrosesau ar waith i sicrhau ein bod ni'n sefydliad sy'n cael ei arwain gan ddata); ac yn unol â'n Strategaeth Data Un Ofcom); Diogelwch Ar-lein (sy'n ategu ein rôl o ran rheoleiddio Platfformau Rhannu Fideos a niwed ar-lein); a'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) (er enghraifft, cyfrannu at brosiect Prosesu Algorithmau'r Fforwm a gwaith arall). | Parhaus |
| **Deall effaith ein gwaith.** Byddwn yn sicrhau bod ein dull o arfarnu polisi yn dilyn yr arferion gorau, a byddwn yn adolygu ein canllawiau asesu effaith. Byddwn yn parhau i asesu effaith ein gwaith drwy ein rhaglen barhaus o ôl-werthuso. | Parhaus |
| **Ymgysylltu Rhyngwladol.** Byddwn yn parhau â'n trafodaethau gyda chymheiriaid rheoleiddio rhyngwladol, llywodraethau, academyddion ac eraill i lywio ein gwaith ar draws ein holl sectorau. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn ceisio sicrhau bod gwahanol systemau rheoleiddio cenedlaethol/rhanbarthol yn y maes ar-lein yn gydnaws, lle bo hynny'n bosibl. Rydym ymhlith yr aelodau a sefydlodd y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang, y byddwn yn ei ddefnyddio i yrru'r agenda hon yn ei blaen. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Sganio'r Gorwel.** Mae Ofcom wedi lansio swyddogaeth Sganio'r Gorwel systematig sy'n ceisio deall yn well y themâu a'r tueddiadau mwyaf a fydd yn effeithio ar ein sectorau a'n defnyddwyr dros y 5-10 mlynedd nesaf. Bydd y rhaglen waith hon yn darparu gwybodaeth strategol ac yn sail i'n gwaith polisi i sicrhau safbwynt blaengar mewn tirwedd gynyddol gymhleth lle mae sectorau'n cael eu cydgyfeirio fwyfwy; a lle mae cwmnïau a gwasanaethau newydd yn datblygu'n gyflym. | Parhaus |
| **Adroddiad amrywiaeth blynyddol.** Yn Chwarter 2 2023/24, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar amrywiaeth, sy'n rhoi manylion ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad yn Ofcom. Mae'n edrych ar broffil amrywiaeth cydweithwyr yn Ofcom yn gyffredinol ac mewn meysydd fel cyflogau, recriwtio, perfformio a dyrchafiadau. Bydd yr adroddiad yn egluro ein data bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ein data bwlch cyflog ethnigrwydd ac, am y tro cyntaf, ein data ar y bwlch cyflog ar gyfer pobl anabl yn 2022/23. Mae'r adroddiad yn ein helpu i benderfynu beth yw ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol o ran amrywiaeth a chynhwysiad yn y flwyddyn i ddod. | Adroddiad<br>Chwarter 2 2023/24 |
| **Cysylltu'r Gwledydd.** Byddwn yn parhau i adrodd ar argaeledd a'r defnydd o rwydweithiau band eang a symudol yn y diweddariad blynyddol hwn, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig. | Diweddariadau<br>Chwarter 1 a Chwarter 2 2023/24<br>Cyhoeddiad<br>Chwarter 3 2023/24 |
| **Cyfryngau'r Genedl.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar dueddiadau allweddol yn y sector teledu a fideo, a'r sector radio a sain, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig. | Adroddiad<br>Chwarter 2 2023/2024 |
| **Ein Gwlad Ar-lein.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ynghylch beth mae pobl yn ei wneud ar-lein, eu hagweddau tuag at ddefnyddio'r rhyngrwyd a'u profiadau o hynny. | Adroddiad<br>Chwarter 3 2023/2024 |
| **Adrodd ar ymwybyddiaeth oedolion o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymysg oedolion y Deyrnas Unedig. Bydd yn cynnwys data ar ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth oedolion 16 oed a hŷn yng nghyswllt cyfryngau, a sut mae'r rhain yn newid dros amser. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil hydredol, ethnograffig, ansoddol ar raddfa fach ymysg oedolion y Deyrnas Unedig – a fydd yn ategu ein harolygon meintiol. | Adroddiad<br>Chwarter 1 2023/24 |
| **Adrodd ar ymwybyddiaeth plant o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau a Defnydd Plant o Gyfryngau, gan roi tystiolaeth am ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc 5-15 oed, yn ogystal â gwybodaeth am fynediad i'r cyfryngau a defnydd ymhlith plant 3-4 oed. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Plant, gan roi manylion | Adroddiad<br>Chwarter 1 2023/24 |

| | |
|---|---|
| canfyddiadau ein gwaith ymchwil hydredol, ethnograffig, ansoddol ar raddfa fach ymysg plant a phobl ifanc. | |